



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

POLISI CRONFA ARIANNOL WRTH GEFN



Dysgu
Learn



Uywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Cefndir	2
Diben	3
Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn Canllawiau Addysg Bellach 2025/26	3
Y Gronfa ar gyfer Dysgu Cymraeg	3
Rôl y Darparwyr	4
Rôl y Ganolfan	5
Amserlen Ceisiadau	6
Dyfarnu'r Taliadau – Matrics Sgorio	7
Prosesu'r Taliad	7
Dysgwyr Cymwys	8
Costau Dilys	9
Asesu Ceisiadau	10
Proses Apêl	11
<i>Atodiadau</i>	
Atodiad 1: Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn Canllawiau Addysg Bellach 2025/26	
Atodiad 2: Fframwaith Cyllido ôl-16	
Atodiad 3: Taflen Gwybodaeth i Ddysgwyr	
Atodiad 4: Ffurflen Gais	

Cefndir

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar 1 Awst 2016 gyda'r bwriad o ddarparu arweiniad strategol i'r maes Dysgu Cymraeg. Mae'r Ganolfan yn darparu grant i ddarparwyr i ddarparu gwersi dysgu Cymraeg ar draws Cymru. Y Darparwyr yw:

Darparwr	Ardal
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Gwynedd, Môn, Conwy
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Dinbych, Fflint, Wrecsam
Dysgu Cymraeg Gwent	Gwent
Dysgu Cymraeg Y Fro	Bro Morgannwg
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Sir Benfro
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Abertawe, Castell Nedd a Phort Talbot
Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr	Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Dinas Caerdydd
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	

Diben

Diben y Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn yw darparu cymorth ariannol i'r myfyrwyr cymwys hynny y gallai ystyriaethau ariannol eu rhwystro rhag cael mynediad i addysg neu sydd, am ba reswm bynnag, gan gynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall, yn wynebu anawsterau ariannol.

Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn Canllawiau Addysg Bellach 2025/26

Bydd y Gronfa yn cael ei defnyddio yn unol â'r Rheoliadau a gynhwysir yn Atodiad 1.

Y Gronfa ar gyfer Dysgu Cymraeg

Gwerth y gronfa sydd wedi ei gadarnhau ar gyfer y flwyddyn addysgol yn 2025/26 yw £11,000. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fydd yn derbyn yr arian gan Medr a'r Ganolfan fydd yn gyfrifol am weinyddu'r arian i'r dysgwr.

Unwaith bydd yr arian wedi dod i ben byddwn yn hysbysu'r Darparwyr er mwyn gallu rhannu'r wybodaeth gyda dysgwyr sy'n gwneud ymholiadau.

Rôl y Darparwyr

Prif rôl y Darparwyr fydd hyrwyddo y Gronfa ac annog dysgwyr i wneud cais. Disgwylir i bob Darparwr hyrwyddo'r Gronfa er mwyn sicrhau tegwch i Ddysgwyr ar draws Cymru i gael yr un cyfle i wneud defnydd ohoni.

Bydd y Darparwyr yn hysbysu pob Dysgwr o'r Gronfa wrth iddynt gofrestru/ ymrestru er mwyn sicrhau cynhwysedd a thegwch i unrhyw un allu ystyried gwneud cais.

Gwneir hyn drwy:

- gynnwys gwybodaeth am y Gronfa yn y prospectws
- gynnwys gwybodaeth am y Gronfa wrth farchnata'r cyrsiau, yn enwedig wrth dargedu grwpiau penodol all fanteisio ar gymorth y Gronfa e.e. ardaloedd difreintiedig
- sicrhau bod pob tiwtor yn derbyn gwybodaeth ac yn deall pwrpas y Gronfa
- gyfeirio at y Gronfa yn y sesiwn anwytho ar gyfer pob Dysgwr a darparu gwybodaeth am sut i wneud cais
- sicrhau bod dysgwyr yn gallu trafod anghenion neu dderbyn cyngor am y Gronfa gan aelod o staff perthnasol

Bydd y gwaith yn cael ei oruchwylio gan Gyfarwyddwr YGDCG, a fydd yn gyfrifol am atebolrwydd y Gronfa i Medr.

Os na fydd y cais yn gyflawn ac yn cynnwys tystiolaeth lawn a'r manylion cywir, ni ellir gwarantu taliad yn unol â'r amserlen isod.

Bydd y Darparwyr yn sicrhau bod aelod o staff ar gael i gynghori a darparu gwybodaeth i unrhyw Ddysgwr sydd eisiau trafod y Gronfa neu eisiau cymorth wrth wneud cais.

Darperir taflen gwybodaeth a ffurflen gais yn Atodiad 3 ac Atodiad 4. Dim ond y rhain y dylai'r darparwyr eu defnyddio a dim ond ceisiadau ar y ffurflen hon a dderbynnir gan y Ganolfan oddi wrth ddysgwyr.

Rôl y Ganolfan

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fydd yn gweinyddu'r Gronfa Arian Wrth Gefn ar ran y sector Dysgu Cymraeg.

Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn adrodd ar wariant y Gronfa i Medr.

Bydd awdit o'r gwariant yn cael ei gynnwys fel rhan o archwiliad blynyddol y Ganolfan ac yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon blynyddol.

Bydd y Ganolfan yn cynnal trafodaethau gyda'r Darparwyr am ddefnydd neu ddiffyg defnydd eu Dysgwyr o'r Gronfa wrth asesu nifer y ceisiadau a dderbynnir o bob ardal.

Cyfrifoldebau

Bydd Swyddog Trefnidaeth y Ganolfan yn gyfrifol am dderbyn y ceisiadau gan y Dysgwyr a chydlynu'r broses dyfarnu.

Y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol fydd y prif gyswllt i'r Darparwyr sydd ag unrhyw ymholiadau am y Grant.

Bydd y gwaith yn cael ei oruchwyllo gan Gyfarwyddwr YGDCG, a fydd yn gyfrifol am atebolrwydd y Gronfa i Medr.

Amserlen Ceisiadau

Bydd angen cyflwyno ceisiadau erbyn y dyddiad cau, fan bellaf, a bydd taliadau yn cael eu prosesu yn unol â'r cynllun.

Os na fydd y cais yn gyflawn ac yn cynnwys tystiolaeth llawn a'r manylion cywir, ni ellir gwarantu taliad.

Hawliad am y Cyfnod	Dyddiad Derbyn Ceisiadau
Tymor 1 (Medi 2025 – Rhagfyr 2025)	02.01.2026
Tymor 2 (Ionawr 2026 – Mawrth 2026)	03.04.2026
Tymor 3 (Ebrill 2026 – Gorffennaf 2026)	17.07.2026

Noder mai ceisiadau ar gyfer Ysgolion Haf yn unig a dderbynnir ar ddiwedd mis Awst. Os bydd cais am wersi tymhorol yn cael eu cynnwys, ni fydd modd i'r gronfa ad-dalu'r costau.

Dyfarnu'r Taliadau – Matrics Sgorio

Bydd y Ganolfan yn dilyn strwythur o asesu pob cais yn ddiuedd ac yn gyson ar draws Cymru. I'r perwyl hyn bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn y matrics sgorio.

Bydd y matrics yn sgorio yn erbyn y math o gymorth y ceisir amdano ynghyd â amgylchiadau penodol yr unigolyn.

Bydd disgwyl i bob cais ymateb i'r gofynion sylfaenol fel lleiafswm.

Bydd y Swyddog Trefniadaeth a'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am yr asesiad cychwynnol yn erbyn y sgorau matrics, a bydd yn cyflwyno'r sgor a'r argymhelliad i ddyfarnu arian i'r unigolyn i Gyfarwyddwr YGDCG, a fydd yn cymeradwyo'r dyfarniadau.

Nid oes gwarant y bydd dysgwyr yn derbyn y symiau sydd wedi nodi yn eu cais. Bydd penderfyniad ar swm y taliad yn cael ei wneud gan Gyfarwyddwr YGDCG, yn unol â'r canllawiau isod:

Cais am swm hyd at (a chynnwys) £50 (mewn tymor)	Taliad Llawn
Cais am swm uwch na £50 (mewn tymor)	Taliad rhannol neu lawn (yn ddibynnol ar y cais)

Prosesu'r Taliadau

Prosesir y taliadau ar raddfa dymhorol i'r dysgwyr, yn unol â'r amserlen a nodir yn yr Amserlen Ceisiadau. Bydd y Ganolfan yn gwirio gyda'r Darparwr fod y dysgwr yn parhau i bresenoli ei hun yn y gwersi drwy ddarparu rhestr o'r dysgwyr sy'n derbyn cymhorthdal yn dymhorol. Cyfrifoldeb y darparwr fydd hysbysu'r Ganolfan os yw dysgwr yn penderfynu peidio parhau gyda'r gwersi.

Dysgwyr Cymwys

Er mwyn bod yn gymwys mae'n rhaid i unigolion gadarnhau eu bod yn cyrraedd y gofynion craidd canlynol:

Sefyllfa	Tystiolaeth
Cadarnhad y basai'n anodd cael mynediad i astudiaethau heb gymorth gan y Gronfa achos fod ystyriaethau ariannol yn rhwystr, e.e. ar incwm isel	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 31 Awst 2025	Ymrwymiad ar y ffurflen gais (dyddiad geni ac oedran)
breswlydd sefydlog, cyfreithiol, yn y DU, a hynny ers o leiaf 3 blynedd; neu gwrdd â'r amodau preswyllo Fframwaith Cyllido ôl-16 (manylion yn Atodiad 2 isod)	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gyda un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Rhif Cofrestru a Chadarnhad gan y Darparwr / Tiwtor

Mae blaenoriaeth yn cael ei rhoi i unigolion yn y sefyllfaoedd canlynol:

Sefyllfa	Tystiolaeth
Rhiant gydag anghenion gofal plant	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Rhiant sengl gydag anghenion gofal plant	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Gofalwyr, a fu'n derbyn gofal, neu ar brawf, neu ddysgwr yr ystyrir eu bod o dan risg am reswm arall	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Ar incwm isel, gan gynnwys rhai sydd ddim yn gymwys i gael cymhorthdal incwm, neu ddysgwyr o deuluoedd ar incwm isel *	Ymrwymiad ar y ffurflen gais
Preswyllo mewn ardal â lefel gyffredinol o 190 pwynt neu is ar restr sgorio WIMD 2014 y Llywodraeth	Gwiriad o god post yn erbyn WIMD 2014 y Llywodaeth
Yn wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd bydd eu teuluoedd yn peidio a derbyn 'elfen plant y credyd cynhwysol' ar 1 Medi sy'n dilyn 19eg pen-blwydd	Ymrwymiad ar y ffurflen gais

*Mae posib i'r Ganolfan ofyn am brawf eich bod ar incwm isel fel rhan o'n proses archwilio, ond nid oes rhaid darparu tystiolaeth gyda'r cais. Dylai ddysgwyr felly sicrhau fod y prawf ar gael pe byddai gofyn amdano.

Costau Dilys

Bydd y Ganolfan yn ystyried ceisiadau am y costau isod:

Cais	Disgrifiad	Tystiolaeth	Uchafswm Dyfarniad
Gofal Plant	Gellir hawlio hyd at £5 yr awr am hyd at 3.5 awr am gost gofal plant pob gwers / sesiwn	Derbynneb gan ofalwr cofrestredig AGC (gan nodi eu rhif cofrestredig). Manylion dyddiadau y gwersi/ sesiynau.	£17.50 y plentyn pob gwers/sesiwn (3.5 awr x £5 yr awr)
Adnoddau - Cyfarpar / deunyddiau dysgu	Adnoddau hanfodol ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau dosbarth, megis llyfrau, dyfeisiadau digidol, mynediad i'r rhyngwrwyd ar gyfer dosbarthiadau rhithiol	Derbynneb(au) yn nodi'r adnoddau a'r symiau	£200 mewn blwyddyn academiaidd
Costau Teithio - Milltiroedd	£0.25 y filltir am y siwrnai i wers/sesiwn (hyd at 60 milltir fesul siwrnai)	Llenwi'r Ffurflen Gostau Teithio gyda dyddiadau'r siwrneau a manylion y daith	£15 fesul siwrnai (hyd at 60 milltir x £0.25)
Costau Teithio - Bws / Trên	Cost siwrnai i fynychu gwers/sesiwn	Copiâu o'r tocynnau	£15 fesul siwrnai
Costau Parcio	Cost Parcio wrth fynychu gwers/sesiwn	Copiâu o'r tocynnau parcio, yn cynnwys y dyddiad a'r symiau	£5 y wers/sesiwn
Anabledau	Hyd at £10 y wers/ sesiwn i helpu gyda chostau ychwanegol oherwydd anabledau	Llythyr swyddogol yn darparu dystiolaeth	£10 y wers/sesiwn

Ni all y gronfa gael ei defnyddio ar gyfer ad-dalu'r costau canlynol:

- Ffi Cwrs
- Dirwyon
- Costau heb eu talu eto
- Blaendaliadau
- Costau heb y dystiolaeth gywir (nodir yn y tabl uchod)

Asesu Ceisiadau

Nod y Ganolfan fydd asesu a phenderfynu ar lwyddiant y ceisiadau sy'n dod i law yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y Dysgwyr yn derbyn dyfarniad a'r taliadau (os yn llwyddiannus) heb oedi. Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r drefn a ddilynir:

	Cam	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Dysgwr i gyflwyno cais i'r Ganolfan	Erbyn y dyddiad cau ar gyfer y tymor a nodir yn yr Amserlen Ceisiadau	Dysgwr
2	Sgorio cais	O fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Swyddog Trefniadaeth / Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol
3	Cymeradwyo cais	O fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Cyfarwyddwr YGDCG
4	Talu'r dysgwr	Dyddiad a nodir yn yr Amserlen Ceisiadau	Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol
5	Adborth i'r dysgwyr aflwyddiannus	O fewn 20 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Swyddog Trefniadaeth
6	Adrodd ar y dyfarniadau	Diwedd y tymor	Swyddog Trefniadaeth

Proses Apêl

Gall Dysgwr apelio yn erbyn y penderfyniad drwy wneud hynny yn ysgrifenedig. Yn y man cyntaf, darperir adborth iddynt ar y matrices sgorio a'r rheswm pam na fuont yn llwyddiannus.

Mae'n bosib i ddysgwyr apelio'r penderfyniad, drwy ail gyflwyno eu cais, gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol.

	Cam	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Dysgwr i gyflwyno cais apel i'r Ganolfan	Dyddiad cau yw 15 diwrnod gwaith o dderbyn adborth aflwyddiannus	Dysgwr
2	Llythyr / e-bost yn diolch am y cais	O fewn 5 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Swyddog Trefniadaeth
3	Ail sgorio cais	O fewn 10 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol
4	Cymeradwyo cais	O fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Cyfarwyddwr YGDCG
5	Talu'r dysgwr	O fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol
6	Paratoi adborth i'r rhai aflwyddiannus	O fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Swyddog Trefniadaeth
7	Adrodd ar y dyfarniadau	Yn dilyn taliad	Swyddog Trefniadaeth

Apeliadau Pellach

Os nad yw'r Dysgwr wedi llwyddo unwaith eto, gellir ysgrifennu yn ffurfiol at Brif Weithredwr y Ganolfan yn nodi sail eu hapêl. Dylid gwneud hyn o fewn 10 diwrnod i dderbyn dyfarniad yr ail gais. Bydd penderfyniad y Prif Weithredwr yn derfynol.

	Cam	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Dysgwr i gyflwyno apêl pellach i'r Ganolfan	Dyddiad cau yw 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr ail adborth aflwyddiannus	Dysgwr
2	Asesiad	O fewn 5 diwrnod gwaith i'r diwrnod cau	Prif Weithredwr
3	Hysbysu o ddyfarniad terfynol yr apêl	O fewn 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau	Prif Weithredwr

Atodiad 1 - Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn Canllawiau Addysg Bellach 2025/26

Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn Canllawiau Addysg Bellach

Fersiwn 1

Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025



Cynnwys

Diben y cyllid	2
Grwpiau â Blaenoriaeth	2
Dysgwyr a rhaglenni cymwys	3
Gweithgaredd cymwys	3
Trefniadau swmp-brynu	6
Gweithgaredd anghymwys	6
Pennu taliadau	6
Taliadau i ddysgwyr	7
Taliadau i ddysgwyr mewn perthynas ag offer a deunyddiau	7
Taliadau yn ystod cyfnodau pan fo astudiaethau'n cael eu hatal dros dro	8
Apeliadau	8
Cyngor i ddysgwyr	8
Cyffredinol	8
Cynnig Gofal Plant Cymru	8
Ceiswyr Lloches	9
Gwladolion Wcreinaidd	10
Taliadau i Sefydliadau	10
Gofynion Monitro	10
Atebolrwydd	11
Manylion Cyswllt	11

Diben y cyllid

1. Diben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yw rhoi cymorth ariannol i'r dysgwyr cymwys hynny y gallai eu mynediad at addysg bellach gael ei rwystro gan ystyriaethau ariannol neu sydd, am ba bynnag reswm, gan gynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall, yn wynebu anawsterau ariannol.
2. Daw'r Canllawiau hyn i rym o 1 Awst 2025 ac maent yn disodli canllawiau presennol ynghylch y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae'r canllawiau'n darparu gwybodaeth am ddiben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer y cyllid, ac yn gosod gofynion mewn perthynas â'r trefniadau hynny. Rhaid i sefydliadau addysg bellach (SABau) a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon wrth bennu eu polisiau cyllido; asesu cymhwysra ac anghenion dysgwyr unigol; a gwneud taliadau.
3. Yn y Canllawiau hyn mae "Sefydliad" yn cyfeirio at sefydliad yn y sector addysg bellach (AB) yng Nghymru neu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n cael cyllid at ddibenion y Gronfa Ariannol Wrth Gefn gan Medr.
4. Gall Medr, ar unrhyw adeg, ddiwygio'r trefniadau a nodir yn y Canllawiau hyn, eu dirymu neu ychwanegu atynt.

Grwpiau â Blaenoriaeth

5. Wrth benderfynu pa ddysgwyr unigol i'w cefnogi, mae Medr yn disgwyl i Sefydliadau roi blaenoriaeth ar gyfer cymorth i ddysgwyr sy'n perthyn i'r grwpiau â blaenoriaeth canlynol:
 - i. Dysgwyr y mae arnynt angen cymorth gyda chostau gofal plant, yn enwedig rhieni unigol. Dylai Sefydliadau ystyried [Cynnig Gofal Plant Cymru](#) cyn gwneud dyfarniad.
 - ii. Dysgwyr a fydd yn cyrraedd 20 oed cyn eu bod yn cwblhau eu Safon Uwch neu raglenni AB eraill ac sy'n wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd y bydd eu teuluoedd yn peidio â chael budd-dal plant ac ychwanegiadau dibyniaeth at Gymhorthdal Incwm neu Gredyd Cynhwysol mwyach ar gyfer y dysgwyr hyn o'u 20^{fed} pen-blwydd.
 - iii. Dysgwyr sy'n ofalwyr (yn rhoi cymorth di-dâl i rywun na allai ymdopi heb y cymorth hwn); plant sy'n derbyn gofal; plant sydd wedi bod mewn gofal, sydd ar brawf neu yr ystyrir eu bod yn wynebu risg fel arall.
 - iv. Dysgwyr ar incwm isel neu heb incwm, gan gynnwys dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael Cymhorthdal Incwm na Chredyd Cynhwysol, neu ddysgwyr o deuluoedd ar incwm isel neu heb incwm, gan gynnwys y teuluoedd hynny sy'n cael Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Cynhwysol a'r rhai sydd â dibynyddion nad ydynt yn ennill cyflog.
 - v. Dysgwyr sy'n preswyl fel arfer mewn ardal sydd yn y 190^{fed} safle neu safle â rhif is na hynny yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog diweddaraf ar gyfer Cymru¹.

¹ Cyhoeddwyd y [Mynegai Amddifadedd Lluosog](#) diweddaraf ar gyfer Cymru ar 1 Mai 2019 a bydd yn gymwys rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022.

6. Atgoffir sefydliadau nad yw perthyn i grŵp â blaenoriaeth ynddo'i hun yn sail ar gyfer dyfarnu cyllid o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Nid yw bod y tu allan i grŵp â blaenoriaeth yn golygu nad yw dysgwr yn gymwys i gael dyfarniad cyllid ychwaith.

Dysgwyr a rhaglenni cymwys

7. Rhaid i ddysgwr fod yn 16 oed neu drosodd ar 31 Awst cyn y flwyddyn academiaidd ac yn gwneud rhaglen amser llawn neu ran-amser yn y Sefydliad (gan gynnwys rhaglenni Cymraeg i Oedolion).
8. Rhaid i ddysgwyr fodloni'r amodau preswyllo yn y [Fframwaith Cyllido Ôl-16](#) hefyd.

Gweithgarwch cymwys

9. Gellir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i roi cymorth yn y categorïau eang a amlinellir yn y tabl ym mharagraff 14 isod.
10. Dylai sefydliadau nodi nad yw'r categorïau hyn yn gynhwysfawr ond eu bod wedi'u bwriadu i ddynodi'r ystod eang o gymorth sy'n perthyn o fewn cwmpas cyllid y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Lle nad yw math arbennig o gymorth neu gategori cymorth arbennig wedi'i gynnwys yn y tabl ym mharagraff 14, cysylltwch â Medr i gael eglurhad.
11. Gall Sefydliadau ddefnyddio 3% o gyfanswm eu dyraniad cyllid neu £525, pa un bynnag yw'r mwyaf, i sicrhau bod y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael cyhoeddusrwydd effeithiol ac y'i gweinyddir yn effeithiol.
12. Mae Medr yn cydnabod y bydd dysgwyr na fyddant yn estyn allan i'r Sefydliad am gymorth am ystod o resymau. Gan hynny, bydd Medr yn caniatáu i Sefydliadau ddefnyddio hyd at 10% o'u cyllideb yn hyblyg ar gyfer cludiant a bwyd ar ben y ceisiadau unigol i gydnabod yr anawsterau a'r rhwystrau rhag cael mynediad at gymorth.
13. Mae'r tri SAB ar ddeg² hefyd yn cael dyraniad ar gyfer Urddas Mislif. I sicrhau'r defnydd gorau o arian, unwaith y cyflawnwyd yr holl ddyletswyddau ar gyfer Urddas Mislif, gall darparwyr ddefnyddio unrhyw danwariant at y dibenion yn y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. [Mae canllawiau ynghylch gwario'r Grant Urddas Mislif i'w cael ar ein gwefan.](#)

² Addysg Oedolion Cymru, Coleg Penybont, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Cambria, Coleg Gwent, Coleg Sir Gâr, Coleg y Cymoedd, Coleg Gŵyr Abertawe, Grŵp Llandrillo Menai, Grŵp NPTC Group, Coleg Sir Benfro, Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant a'r Coleg, Merthyr Tudful.

14.

Math o ddarpariaeth	Disgrifiad o'r ddarpariaeth
Cynhorthwy gyda chostau Anabledd	Gall Sefydliadau wneud taliadau at ddiben helpu dysgwyr cymwys anabl a dysgwyr cymwys â dibynyddion anabl. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, taliadau mewn perthynas â chostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r anabledd. Lle mae'r Sefydliad wedi prynu offer ar gyfer dysgwr anabl cymwys, dylai'r offer hwnnw aros yn eiddo i'r Sefydliad, oni bai bod yr offer hwnnw wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion unigol y dysgwr. Dylid ystyried y gronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol cyn gwneud dyfarniad dan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.
Llyfrau	Gall Sefydliadau brynu llyfrau hanfodol ar gyfer dysgwyr sy'n ofynnol ar gyfer eu rhaglen ddysgu. Fel arfer dylai unrhyw ddeunyddiau a brynwyd gan Sefydliad gan ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn aros yn eiddo i'r Sefydliad.
Offer	Gall Sefydliadau brynu offer hanfodol ar gyfer dysgwyr sy'n ofynnol ar gyfer eu rhaglen ddysgu. Ni ddylai hyn fod ar gyfer deunyddiau a ddarperir i'r holl ddysgwyr fel rhan o'r rhaglen. Fel arfer dylai unrhyw offer a brynwyd gan Sefydliad gan ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn aros yn eiddo i'r Sefydliad. Dylai eitemau mawr o offer a brynwyd ar gyfer defnydd dysgwyr unigol aros yn eiddo i'r Sefydliad.
Llety	Gall Sefydliadau gyfrannu at gostau ffioedd llety ar gyfer dysgwyr cymwys sy'n gorfod teithio i fynychu'r coleg neu sydd â gofyniad preswyl fel rhan o'u hastudiaethau, er enghraifft cyfraniadau tuag at ffioedd hostel. Gall Sefydliadau gefnogi dysgwyr cymwys sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd ac y mae arnynt angen cymorth i fyw yn annibynnol hefyd tra bo'r coleg yn eu cynorthwyo i ddod o hyd i lety priodol a chael mynediad at fudd-daliadau.
Gofal Plant	Gall Sefydliadau gefnogi dysgwyr gyda chostau sy'n gysylltiedig â gofal plant. Dylai Sefydliadau ystyried Cynnig Gofal Plant Cymru cyn gwneud dyfarniad.
Cludiant (gan gynnwys swmp-brynu)	Gall Sefydliadau ddefnyddio'r cyllid i gefnogi dysgwyr gyda'r costau sy'n gysylltiedig â chludiant. Gall hyn gynnwys trefniadau swmp-brynu; ceir amodau penodol ar gyfer trefniadau swmp-brynu ym mharagraffau 15 i 17 isod.

Math o ddarpariaeth	Disgrifiad o'r ddarpariaeth
Cludiant i Ddysgwyr Anabl	Gall Sefydliadau ddefnyddio'r cyllid i gefnogi dysgwyr sy'n ysgwyddo costau uwch am bod arnynt angen cludiant arbenigol oherwydd eu hanabledd.
Deunydd Ysgrifennu	Gall Sefydliadau brynu deunydd ysgrifennu ar gyfer dysgwyr. Dylai hyn fod yn ychwanegol at unrhyw ddeunydd ysgrifennu y trefnir ei fod ar gael i'r holl ddysgwyr.
Ffioedd Arholiadau	Gall Sefydliadau ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd arholiadau cyrff dyfarnu, os mai cyfrifoldeb y dysgwr unigol ar y rhaglen ddysgu yw'r rhain fel arfer.
Ffioedd Cofrestru	Gall Sefydliadau ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd cofrestru, os mai cyfrifoldeb y dysgwr unigol ar y rhaglen ddysgu yw'r ffioedd fel arfer.
Teithiau Maes	Gall Sefydliadau ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i gefnogi dysgwyr gyda chostau teithiau maes sy'n hanfodol i'w rhaglen ddysgu.
Bwyd	Gall Sefydliadau ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i fynd i'r afael â phroblem gynyddol tlodi bwyd.
Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Os oes gofyn i ddysgwyr gael Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gwblhau eu rhaglen astudio gall Sefydliadau eu cefnogi gyda chost y gwasanaeth.
Grantiau a Benthyciadau	Gall sefydliadau ddarparu cyllid ar ffurf grantiau neu fenthyciadau byrdymor. Y Sefydliad sydd i bennu swm y grant neu'r benthyciad byrdymor a ddyfernir i ddysgwyr cymwys.
Ffioedd dysgu a chostau sy'n gysylltiedig â chysiau	Ni ddylid defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd dysgu ar gyfer unrhyw ddysgwr, ac eithrio mewn achosion lle mae dysgwr cymwys rhan-amser yn gwneud modiwl blas ar addysg uwch sydd rhwng 10% a 50% o gwrs addysg uwch amser llawn. Mae gan Sefydliadau ddisgresiwn hefyd i ddarparu cyllid i ddysgwyr cymwys sy'n gwneud modiwlau blas ar addysg uwch sy'n llai na 10% o gwrs addysg uwch amser llawn neu'n llai na 12 credyd ac sydd fel arall yn bodloni meini prawf cymhwysra Sefydliadau ar gyfer cymorth gyda modiwl blas ar addysg uwch.

Trefniadau swmp-brynu

15. Gall Sefydliadau wneud trefniadau swmp-brynu gyda chwmnïau cludiant lleol a darparu offer neu wasanaethau am gost is i ddysgwyr cymwys y byddai angen cymorth arnynt o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn fel arall.
16. Gellir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i roi cymhorthdal tuag at drefniadau swmp-brynu presennol a gyllidir ag arian y Sefydliad ei hun. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried mai dyma'r brif ffynhonnell cyllid ar gyfer y trefniadau hyn. Rhaid ystyried anghenion dysgwyr unigol yn y lle cyntaf ar gyfer gwario'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.
17. Lle mae Sefydliad yn ymrwymo i drefniant swmp-brynu, rhaid cynnal trywydd archwilio eglur sy'n nodi'n glir pwy yw'r dysgwyr sydd wedi cael budd ohono a swm y cyllid o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn a ddyrannwyd. Rhaid i'r cofnodion hefyd ddangos bod y mwyafrif o'r dysgwyr yn wynebu caledi ariannol phwy fyddai, heb gymorth o'r fath, yn cael anhawster cael mynediad at ddysgu.

Gweithgarwch anghymwys

18. Ni ddylid defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd dysgu, ac eithrio yn unol â'r tabl ym mharagraff 14 uchod.
19. Ni ddylai Sefydliadau ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ategu cynlluniau hawlogaeth sy'n seiliedig ar brawf modd (e.e. cynlluniau grant/bwrsariaeth hawlogaeth).
20. Ni ddylid defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ddarparu cyfleusterau grŵp neu gymunol, nac i wneud addasiadau i adeiladau.
21. Gall Sefydliadau ddefnyddio'r cyllid i ddarparu gwasanaethau cludiant; fodd bynnag, ni ddylai gwasanaethau o'r fath gynnwys costau cyfalaf, megis prynu cerbyd.
22. Mae dirwyon a blaendaliadau y tu hwnt i gwmpas y cyllid. Mae enghreifftiau'n cynnwys dirwyon am ddychwelyd llyfrau'n hwyr i'r llyfrgell neu ddirwyon disgyblu eraill; blaendaliadau ar loceri, cardiau adnabod, allweddi, cardiau llyfrgell ac offer y rhoddir ad-daliad llawn amdanynt ac eithrio yn achos difrod neu ddwyn.

Pennu taliadau

23. Rhaid i sefydliadau bennu eu meini prawf cymhwysra eu hunain a'u gweithdrefnau eu hunain ar gyfer ystyried ceisiadau a gwneud taliadau i ddysgwyr cymwys, yn amodol ar y canllawiau hyn ac unrhyw ganllawiau eraill gan Medr.
24. Rhaid bod gan sefydliadau bolisïau ysgrifenedig sy'n egluro eu trefniadau gweithredol ar gyfer dyfarnu cyllid o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Dylid trefnu bod y rhain ar gael yn eang i'r holl randdeiliaid.

25. Rhaid i geisiadau am gyllid o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn gael eu gwerthuso gan Sefydliadau fesul achos unigol yn unol â'u polisïau ysgrifenedig ar gyfer dyrannu cyllid. Ym mhob achos, rhaid i Sefydliadau asesu cais dysgwr yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan y dysgwr a'i amgylchiadau unigol. Dylai dysgwr gael ei hysbysu a yw ei gais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus ai peidio o fewn pedair wythnos ar ôl i'r Sefydliad gael y cais hwnnw.
26. Wrth ystyried ceisiadau, rhaid i Sefydliadau ystyried amgylchiadau ariannol y dysgwr ac argaeledd cymorth o ffynonellau eraill, megis: y [Lwfans Cynhaliaeth Addysg](#); cynllun [Grant Dysgu Llywodraeth Cymru](#) Addysg Bellach neu gynlluniau cyfatebol a gyllidir gan y Llywodraeth; [Cynnig Gofal Plant Cymru](#) Llywodraeth Cymru; neu Fudd-daliadau Lles gan gynnwys: Cymhorthdal Incwm, Credyd Cynhwysol, a chymorth a roddir gan awdurdod lleol y dysgwr. Efallai na fydd rhai dysgwyr yn gymwys i gael y cymorth o'r rhestr uchod; serch hynny, gallent ddal i wynebu caledi ariannol a byddent felly'n gymwys i gael cymorth trwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.
27. Atgoffir Sefydliadau bod y Gronfa Ariannol Wrth Gefn wedi'i bwriadu i roi cymorth i ddysgwyr unigol mewn achosion lle cadarnheir angen ac na ddylid ei defnyddio fel offeryn marchnata. Dylai Sefydliadau fod yn ymwybodol o'r cymorth a gynigir gan awdurdodau lleol a sefydliadau cyfagos a dylent sicrhau nad yw'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael ei defnyddio i gynnig cymhellion sydd wedi'u bwriadu i ddenu dysgwyr o sefydliadau eraill.
28. Wrth bennu a gwneud taliadau i ddysgwyr, dylai Sefydliadau roi sylw i unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) mewn perthynas â gofynion a osodir gan Bennod 2 Rhan 6 [Deddf Cydraddoldeb 2010](#).

Taliadau i ddysgwyr

29. Rhaid i Sefydliadau ymdrin yn brydlon â thaliadau dysgwyr gan gofio diben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ac amgylchiadau sy'n achosi caledi ariannol.
30. Rhaid i Sefydliadau beidio ag ymrwymo i ddyfarniadau o un flwyddyn i'r llall ar gyfer dysgwyr.
31. Er y gall taliadau o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn gael eu cytuno mewn egwyddor cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, **ni ddylid** eu talu nes bod y dysgwr wedi dechrau ei raglen astudio.
32. Gall Sefydliadau wneud taliadau i ddysgwyr cymwys naill ai mewn cyfandaliad neu mewn rhandaliadau.

Taliadau i ddysgwyr mewn perthynas ag offer a deunyddiau

33. Gall dysgwr cymwys wneud cais am gyllid mewn perthynas ag offer a/neu ddeunyddiau hanfodol y mae wedi'u prynu er mwyn cyfranogi mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwrs. Os yw cais y dysgwr yn llwyddiannus, gall

Sefydliad ad-dalu'r costau a ysgwyddwyd gan y dysgwr wrth brynu'r offer a/neu'r deunyddiau yn llawn neu'n rhannol.

34. Mae Medr yn cynghori y dylai Sefydliadau brynu'r offer ar ran dysgwyr a darparu'r offer ar eu cyfer gan nad yw hyn yn cael effaith ar fudd-daliadau eraill.

Taliadau yn ystod cyfnodau pan fo astudiaethau'n cael eu hatal dros dro

35. Gall Sefydliad wneud taliadau i ddysgwyr cymwys sydd wedi atal eu hastudiaethau dros dro am resymau iechyd, gofalu, beichiogrwydd, neu oherwydd unrhyw amgylchiadau eraill sy'n briodol ym marn y Sefydliad, ar yr amod bod y Sefydliad wedi'i argyhoeddi nad yw'r dysgwr wedi tynnu'n ôl o'r cwrs na rhoi'r gorau iddo a bod y dysgwr yn bwriadu dychwelyd at y cwrs.

Apeliadau

36. Rhaid bod gan Sefydliadau weithdrefn apeliadau sydd wedi'i chyhoeddi ar gyfer achosion lle mae dysgwyr wedi ymgeisio'n aflwyddiannus am gymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Dylai'r weithdrefn hon fod yn eglur, a rhaid i ddysgwyr gael eu hysbysu ynghylch eu hawl i apelio. Y Sefydliad â chyfrifoldeb am weinyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn sydd i wneud penderfyniadau ynglŷn â chymhwysra a dyfarniadau. Dylai Sefydliadau ystyried pob achos a datrys apeliadau yn unol â'r weithdrefn a gyhoeddwyd ganddynt.
37. Dylai Sefydliadau ystyried cynnwys cynrychiolaeth o blith dysgwyr yn eu proses benderfynu.

Cyngor i ddysgwyr

Cyffredinol

38. Mae rhoi cyngor ariannol i ddysgwr yn rhan allweddol o sicrhau defnydd effeithiol o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.
39. Dylai Sefydliadau sicrhau bod dysgwyr sy'n ceisio cymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael eu cynghori y gallai unrhyw daliadau y maent yn eu cael ddwyn goblygiadau ar gyfer eu hawl i fudd-daliadau, yn enwedig Cymhorthdal Incwm a Chredyd Cynhwysol. Dylai Sefydliadau gynghori dysgwyr sy'n geiswyr lloches i wneud y Swyddfa Gartref yn ymwybodol o unrhyw gyllid y byddant yn ei gael i sicrhau nad oes unrhyw effaith ar gymorth ariannol sy'n gysylltiedig â cheisio lloches.

Cynnig Gofal Plant Cymru

40. Mae Cynnig Gofal Plant Cymru'n darparu 30 o oriau o addysg gynnar a gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth i rieni cymwys plant 3 a 4 oed am 48 o wythnosau mewn cyfnod o 52 o wythnosau.

41. Yn ystod tymhorau ysgol mae hyn yn isafswm o 10 awr o addysg gynnar (a ddarperir trwy Ddysgu Sylfaen) ac oriau ychwanegol o ofal plant a gyllidir. Ar gyfer yr wythnosau yn ystod y gwyliau sydd ar gael dan y Cynnig, gall rhieni gael mynediad at 30 o oriau o ofal plant a gyllidir.
42. O fis Medi 2022, mae Cynnig Gofal Plant Cymru wedi cael ei estyn i rieni mewn addysg a hyfforddiant.
43. Rhaid i rieni mewn addysg fod wedi cofrestru ar gwrs sy'n para o leiaf 10 wythnos i fod yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru yn ogystal ag ateb gofynion eraill o ran cymhwysra.
44. Nid yw Cynnig Gofal Plant Cymru'n cael blaenoriaeth dros gymorth arall, gan gynnwys y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Dylid rhoi cyngor ac arweiniad i rieni i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'u hopsiynau.
45. Gan mai dim ond 30 o oriau o ofal plant yr wythnos y mae Cynnig Gofal Plant Cymru'n eu darparu, gellir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu am oriau ychwanegol y gall fod ar rieni eu hangen ynghyd â chostau eraill sy'n gysylltiedig â gofal plant nas cwmpesir gan y Cynnig.
46. Er bod y risg o gyllido deuol yn isel, dylid rhoi gwiriadau yn eu lle i sicrhau nad yw oriau a gwmpesir gan Gynnig Gofal Plant Cymru wedi'u cynnwys yn unrhyw hawliadau a wneir gan rieni am gymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.
47. Dylai dysgwyr a all fod yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru, neu sydd â diddordeb mewn dod i wybod mwy, gael eu cyfeirio at y [Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd](#). Byddant hwy'n gallu cynghori rhieni ynglŷn â Chynnig Gofal Plant Cymru, eu cymhwysra a chymorth arall a all fod ar gael iddynt.

Ceiswyr Lloches

48. Nid oes gan geiswyr lloches unrhyw hawl i restr benodedig o "arian cyhoeddus". Fodd bynnag, nid ystyrir mai "arian cyhoeddus" yw'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu canllawiau i sefydliadau yng Nghymru³ i ddeall cysyniad Arian Cyhoeddus yn well. Gall ceiswyr lloches sy'n ddiymgeledd gyflwyno cais i'r Swyddfa Gartref am dŷ addas ac arian ar gyfer hanfodion, ond nid ydynt yn gymwys i gael cymorth statudol i fyfyrwyr na chymorth o ffynonellau eraill megis Lwfans Cynhaliaeth Addysg neu Gynlluniau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.
49. Ar yr amod bod ceisiwr lloches yn bodloni'r amodau cymhwysra y cyfeirir atynt ym mharagraffau 7 ac 8 uchod, gall Sefydliadau roi cymorth mewn ffyrdd eraill megis llyfrau, offer, gofal plant neu gerdyn teithio.
50. Wrth ddarparu offer, dylid cyflwyno llythyr i gyd-fynd â'r offer sy'n egluro ei fod wedi cael ei ddarparu gan y Sefydliad.

³ [Dim hawl i gael arian cyhoeddus \(NRPF\): canllawiau](#)

51. Dylai Sefydliadau osgoi rhoi taliadau mawr i mewn i gyfrifon banc ar gyfer ceisiwr lloches oni bai mai plentyn yn ceisio lloches ar ei ben ei hun ydyw.
52. Nid yw plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain yn cael cymorth mewn arian parod gan y Swyddfa Gartref a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol ydynt. Cânt eu trin fel plant sy'n derbyn gofal a byddent yn perthyn i'r grwpiau blaenoriaeth ym mharagraff 5, iii, uchod, lle mae ganddynt angen ariannol.
53. Lle mae plant sy'n ceisio lloches yn dod yn oedolion yn gyfreithiol pan ydynt yn troi'n 18, rhaid i Sefydliadau ystyried eu statws mewnfudo. Lle mae'r hawliad am loches yn cael ei benderfynu o'u plaid, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r un cymorth a gwasanaethau iddynt ag y maent yn eu rhoi i'r rhai sy'n gadael gofal. Gan hynny, maent yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth.
54. Mae ceiswyr lloches y gwrthodwyd lloches iddynt neu y penderfynwyd na ellir derbyn eu hawliad ond y rhoddwyd cymorth iddynt dan Adran 4 [Deddf Mewnfudo a Lloches 1999](#) yn dal i fod yn gymwys i gael cymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Lle mae dysgwr yn cael cymorth Adran 4, dylai'r Sefydliad ei argyhoeddi ei hun nad yw'r dysgwr yn mynd i gael ei symud o'r DU yn y dyfodol agos. Ni ddylai Sefydliadau gyflwyno ymholiadau i'r Swyddfa Gartref i ganfod ei barn hi.

Gwladolion Wcreinaidd

55. Bydd gwladolion Wcreinaidd a gefnogwyd trwy un o Gynlluniau Llywodraeth y DU i Roi Fisas i Wcreiniaid yn gymwys ar unwaith i gael cyllid ôl-16 a byddant wedi'u heithrio o'r gofynion arferol i fod wedi preswyllo am dair blynedd. Mae'r cymhwysra hwn yn ymestyn i gymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae categorïau mewnfudo eraill wedi'u heithrio rhag gorfod ateb y gofynion i fod wedi preswyllo am dair blynedd hefyd; gweler y rhestr sydd wedi'i chynnwys yn y [Fframwaith Cyllid Ôl-16](#).

Taliadau i Sefydliadau

56. Bydd cyllid yn cael ei dalu i Sefydliadau mewn tri rhandaliad ym mis Awst, mis Rhagfyr a mis Ebrill.

Gofynion Monitro

57. Rhaid i Sefydliadau sy'n cael arian o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn gyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn erbyn y dydd Gwener olaf ym mis Tachwedd ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd. Bydd templedi'r adroddiadau'n cael eu hanfon gan Medr i'w cwblhau cyn y terfyn amser ar gyfer eu cyflwyno.
58. Bydd unrhyw arian o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn sydd heb ei wario, gan gynnwys unrhyw log a gronwyd gan y Sefydliad, a adnabuwyd yn yr adroddiad diwedd blwyddyn, yn cael ei adhawlio'n llawn gan Medr.

Atebolrwydd

59. Prif Weithredwr (neu rywun cyfatebol yn) y Sefydliad sy'n gyfrifol am:
- Cynghori Corff Llywodraethu'r Sefydliad ynghylch ei gyfrifoldebau dan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.
 - Sicrhau bod y ffyrdd y mae'r Sefydliad yn defnyddio ei ddyraniad cyllid yn gyson â diben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ac y cydymffurfir â thelerau ac amodau'r canllawiau hyn.
 - Cymryd y mesurau hynny y gall Medr eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd i sicrhau bod system o reolaethau a dulliau rheoli ariannol yn ei lle i alluogi'r Sefydliad i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol.
60. Rhaid i Sefydliadau roi sylw i'r cyngor yn y [Memorandwm Ariannol](#)⁴ rhwng Medr a sefydliadau addysg bellach a dilyn y trefniadau archwilio sydd wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Ariannol.
61. Rhaid i Sefydliadau drefnu hefyd bod gwybodaeth mewn perthynas â'u cyfrifon archwiliedig ar gael i Medr os gofynnir.

Manylion Cyswllt

62. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Canllawiau hyn, cysylltwch â Medr yn BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

⁴ Trosglwyddwyd rôl reoleiddio Llywodraeth Cymru i Medr o 1 Awst 2024. Bydd y fframwaith presennol yn aros yn ei le nes bod fframwaith Medr ei hun yn weithredol.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Atodiad 2 – Fframwaith Cyllido ôl-16

Fframwaith cyllido ôl-16

Canllawiau a Chyfeiriadur Rhaglenni

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn ddilys
nes i'r sector gael gwybod fel arall.

Cyhoeddwyd Mawrth 2025



Cynnwys

Cefndir a Chynnwys.....	3
Gofynion o ran Codau Rhaglenni	4
Nodau Rhaglenni Llawn-amser	4
Gofynion Rhaglenni Llawn-Amser - Rhaglenni Galwedigaethol (ac eithrio Mynediad i AU a Lefel 4).....	9
Gofynion Rhaglen Llawn Amser – Addysg Gyffredinol, Mynediad i AU a Lefel 4.....	11
Astudio Rhan-amser	12
Tystiolaeth o Oriau ac Amserlen y Rhaglen	13
Diwygio Rhaglen – Tynnu’n Ôl a Throsglwyddiadau	13
Cymhwysra Dysgwyr	14
Math o Ddarpariaeth a Goblygiadau Pellach.....	25
Manylion Cyswllt	27
Atodiad A1: Codau Rhaglenni a Gwybodaeth Fanwl (2024/25)	28
Atodiad A2: Codau Rhaglenni a Gwybodaeth Fanwl (2025/26)	41
Atodiad B: Diffinio’r UE, AEE a Thiriogaethau Dibynnol Tramor Cymwys yn ôl y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2020.....	54
Atodiad C: Llofnodion Electronig	56
Atodiad D: Rhestr o Ddarpariaeth Gyffredin o ran Hyfforddiant Diogelwch yn y Gweithle.....	57

Cefndir a Chynnwys

Mae'r nodyn hwn yn pennu'r cefndir, y cynnwys a'r manylion ar gyfer rhaglenni dysgu ôl-16 ac yn hysbysu ynghylch cymhwystra dysgwyr a darpariaeth ar gyfer cyllid.

A. Cefndir

Mae'r modd y mae rhaglen yn ymdrin â chyllid yn seiliedig ar becyn o ddysgu sydd â dibenion a deilliannau ar gyfer symud y dysgwr ymlaen i gyflogaeth, neu i addysg bellach neu uwch.

Rhaglenni yw'r prif gyfrwng ar gyfer cyllido, cynllunio, cyflawni a monitro o dan y Fframwaith Cyllido Ôl-16. Mae pob rhaglen gymwys yn denu gwerth cyllid, a ddefnyddir i gynllunio, monitro a rhoi cyfrif am y modd y defnyddir cyllid.

Mae'r rhaglenni hefyd yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a darparwyr allanol ynglŷn â ffurfweddu darpariaeth yng Nghymru, ynghyd â strategaethau ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth honno i ddiwallu anghenion presennol ac anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd, bydd y rhaglenni'n cael eu monitro i ddeall pa mor effeithiol yw'r dysgu a gynigir yn erbyn eu dibenion a'u deilliannau diffiniedig. Bydd y broses hon yn amlygu pa raglenni sy'n tanberfformio ac, o bosibl, yn nodi meysydd lle mae diffyg neu alw am ddarpariaeth.

Datblygwyd y Cyfeiriadur i gasglu ynghyd holl ddimensiynau allweddol y rhaglenni cymwys yn un ffynhonnell, a fydd yn bwynt cyfeirio wrth ymgysylltu â'r sector, ac i gadarnhau'r rhestr o raglenni sy'n gymwys am gyllid.

B. Cynnwys

Mae'r ddogfen hon yn pennu diben pob lefel a math o raglen, ynghyd â chrynodeb o bob un o elfennau rhaglen ddysgu lawn-amser; y Craidd, y Prif Gymhwyster/Gymwysterau, Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant, a Phrofiad- Cysylltiedig â Gwaith.

Mae Atodiad A1 y ddogfen hon yn cynnwys rhestr lawn o raglenni cymwys ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25 ac Atodiad 2 yn cynnwys yr un rhestr ar gyfer 2025/26.

Mae'n cynnwys rhai galwedigaethol, addysg gyffredinol a gweithgarwch dysgu rhan-amser; sy'n gymwys ar gyfer cyllid, ynghyd â rhaglen codau, gwerthoedd rhaglen a manylion am oriau'r rhaglenni a ariennir.

Mae'r Cyfeiriadur Rhaglenni ar gael ar-lein drwy LLWR Inform. Bydd y fersiwn ar-lein hon yn cael ei diweddarau drwy gydol y flwyddyn gydag unrhyw raglenni y cytunir arnynt.

C. Diwygiadau i Raglenni

Mae'r Broses o Welliannau'r Rhaglen yn galluogi darparwyr i newid rhaglenni presennol neu ddarparu sail resymegol ar gyfer cyflwyno rhaglenni newydd.

Lle bo angen diwygio rhaglen neu na ellir ei gweld yn y Cyfeiriadur, dylai darparwyr gysylltu ag adran [Datblygiad, Buddsoddiad a Pherfformiad](#) Medr i ofyn am 'Ffurflen Diwygio'r Cyfeiriadur Rhaglenni'. Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

Dylai'r darparwyr nodi bod yn rhaid i unrhyw ddiwygiadau rhaglen gael eu cydlofnodi gan Bennaeth y Sefydliad (sefydliad AB) neu'r Cyfarwyddwr Addysg (Awdurdodau Lleol).

Gofynion o ran Codau Rhaglenni

Mae codau rhaglenni yn cynnwys hyd at wyth nod sy'n dynodi'r maes sector pwnc, yr is-sector, lefel y rhaglen, a'r math o raglen (e.e. llawn-amser neu ran-amser).

Defnyddir codau rhaglenni nid yn unig at ddibenion cyllido a chynllunio, ond hefyd at ddibenion monitro ac adrodd ledled Medr.

D. Estyniadau 2-Nod i Godau Rhaglenni

Defnyddir estyniadau dau nod i godau rhaglenni ar gyfer rhaglenni dwy flynedd i ddynodi a yw'r dysgwr yn ymgymryd â'r flwyddyn gyntaf neu'r ail.

O ran dysgwr sy'n ymgymryd â blwyddyn gyntaf rhaglen ddwy flynedd, dylid defnyddio'r estyniad '12', ac o ran dysgwyr sy'n ymgymryd ag ail flwyddyn rhaglen ddwy flynedd, dylid defnyddio'r estyniad '22'.

Er enghraifft, dylai dysgwr sy'n ymgymryd â blwyddyn gyntaf rhaglen Gofal Anifeiliaid ar Lefel 3 gael ei gofrestru gan ddefnyddio'r cod rhaglen canlynol:

- 0303B03B12 Dyma'r flwyddyn gyntaf o raglen ddwy flynedd.

Fodd bynnag, dylai dysgwr sy'n ymgymryd ag ail flwyddyn rhaglen Gweinyddu Busnes ar Lefel 3 gael ei gofrestru gan ddefnyddio'r cod rhaglen canlynol:

- 1502A03B22 Dyma'r ail flwyddyn o raglen ddwy flynedd.

Nid yw estyniadau nodau wedi'u rhestru yn y Cyfeiriadur Rhaglenni ei hun, ond dylid eu defnyddio mewn ffurflenni data darparwyr lle bo hynny'n briodol. Mae rhestr lawn o'r codau dilys, ynghyd â'r rhaglenni dysgu y maent yn cyfeirio atynt, i'w gweld o dan y pennawd *LLWR Lookups* ar dudalennau dogfennau LLWR Inform.

Bydd y codau hefyd wedi'u rhestru yn y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD): Nodiadau Cwblhau Technegol i Awdurdodau Lleol ac Ysgolion (Casgliadau Ôl-16).

Nodau Rhaglenni Llawn-amser

Mae pob rhaglen wedi'i dylunio gyda nod diffiniedig sy'n cydnabod y gallai fod gan ddysgwyr unigol ddibenion dysgu gwahanol.

A. Rhaglenni Lefel Mynediad

Nod Rhaglen Lefel Mynediad yw ennyn diddordeb dysgwyr a'u cyflwyno i addysg bellach, er mwyn meithrin a chymhwyso sgiliau galwedigaethol hanfodol ac ymarferol sylfaenol, yn ogystal â rhoi'r cyfle i ddysgwyr ailymgysylltu â chymdeithas drwy ddysgu ail gyfle.

Dylai rhaglenni lefel mynediad baratoi dysgwr i symud ymlaen i astudiaethau lefel 1.

B. Rhaglenni Lefel 1

Mae rhaglenni lefel 1 yn cydnabod gwybodaeth a sgiliau sylfaenol. Eu nod yw ennyn diddordeb dysgwyr ar lefel sylfaenol a datblygu eu sgiliau galwedigaethol hanfodol ac ymarferol ymhellach i'w galluogi i symud ymlaen i astudiaeth Lefel 2 mewn maes galwedigaethol dewisol, Prentisiaeth Sylfaen neu gyflogaeth.

C. Rhaglenni Dysgu Carlam Lefel 1-2

Mae rhaglenni dysgu carlam lefel 1-2 yn cynyddu nifer safonol yr oriau dysgu ar gyfer dysgwyr y nodir eu bod yn meddu ar y gallu i gyflawni cymhwyster lefel 2, ond y gall fod arnynt angen ychydig o ddatblygiad lefel 1 yn y maes galwedigaethol cyn eu bod yn gwbl barod.

Nid yw dysgwyr sydd eisoes wedi cwblhau lefel 1 yn yr un Maes Sector Pwnc yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon.

Dylai'r dysgu a gynllunnir ar lefel 1 tuag at gyflawni lefel 2 gael ei nodi'n glir yng nghynllun dysgu unigol y dysgwr. Yn rhan o'r broses fonitro, bydd y gweithgareddau a gyflawnir yn rhan o'r rhaglen yn cael eu hadolygu, er mwyn nodi dysgu ychwanegol y dysgwr.

Bydd dysgwyr ar raglenni dysgu carlam lefel 1-2 yn destun yr un mesurau perfformiad â dysgwr lefel 2

D. Rhaglenni Lefel 2

Mae rhaglenni lefel 2 yn cydnabod lefel dda o ddealltwriaeth a gwybodaeth am faes penodol. Dylai'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd y dysgwyr yn eu meithrin ar y lefel hon eu paratoi ar gyfer astudiaeth bellach ar lefel 3 mewn sefydliad AB, neu ar gyfer cyflogaeth neu brentisiaeth.

- Sylfaen: Rhaglen lefel 2 sy'n cydnabod lefel eang o wybodaeth a dealltwriaeth o'r maes sector ehangach gan roi cyfle i ddysgwyr fynd ymlaen i astudiaethau lefel 2 mwy penodol, neu symud ymlaen i brentisiaeth lefel 3 yn y maes galwedigaethol a ddewiswyd.
- Cynnydd: Rhaglen lefel 2 sy'n cydnabod lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth o faes penodol. Diben y rhaglen yw adeiladu ar sgiliau galwedigaethol ymarferol llwybr dewisol dysgwr, gyda'r nod o symud ymlaen i astudiaethau lefel 3 yn y maes galwedigaethol a ddewiswyd neu brentisiaeth.

E. Rhaglenni Dysgu Carlam Lefel 2-3

Mae rhaglenni dysgu carlam lefel 2-3 yn cynyddu nifer safonol yr oriau dysgu ar gyfer dysgwyr y nodir eu bod yn meddu ar y gallu i gyflawni cymhwyster lefel 3, ond y gall fod arnynt angen ychydig o ddysgu ychwanegol ar lefel 2 er mwyn cyflawni hyn mewn dwy flynedd.

Dylai'r dysgu lefel 2 ychwanegol gael ei nodi'n glir yng nghynllun dysgu unigol y dysgwr a dylid ei gyflawni ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen, ochr yn ochr â'r dysgu lefel 3 sydd gyfwerth â blwyddyn lawn.

Yn yr ail flwyddyn, bydd dysgwyr yn symud ymlaen tuag at gwblhau'r rhaglen lefel 3 lawn. I ddibenion cyllido a monitro, dylid defnyddio'r cod rhaglen Maes Pwnc Is-sector, a chanddo'r estyniad '22'.

Nid yw dysgwyr sydd eisoes wedi cwblhau lefel 2 yn yr un Maes Sector Pwnc yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon.

Bydd dysgwyr ar raglen dysgu carlam lefel 2-3 yn destun yr un mesurau perfformiad â dysgwr lefel 3.

F. Rhaglenni Lefel 3

Mae rhaglenni lefel 3 fel arfer yn cael eu darparu dros gyfnod o ddwy flynedd, ac maent yn datblygu dyfnder ac ehangder sgiliau hanfodol a sgiliau cyflogadwyedd, gan gydnabod y gallu i feithrin a defnyddio amrywiaeth o wybodaeth a sgiliau. Drwy ddilyn rhaglen lefel 3, bydd dysgwyr yn cael eu paratoi ar gyfer naill ai astudiaeth bellach ar lefel 4 mewn sefydliad AB neu AU, neu ar gyfer cyflogaeth neu brentisiaeth uwch.

At ddibenion cynllunio, cyllido a monitro, dylid defnyddio codau estyniad ar y cyd â chod safonol y rhaglen i nodi a yw dysgwr ar flwyddyn 1 neu flwyddyn 2 o raglen ddwy- flynedd.

G. Rhaglenni Lefel 4

Cyrsiau addysg uwch yw Rhaglenni Lefel 4 sy'n datblygu gwybodaeth arbenigol mewn maes pwnc dewisol. Y canlyniad disgwyliedig o raglenni lefel 4 fyddai astudiaeth bellach yn y Brifysgol i gwblhau gradd lawn, cyflogaeth neu brentisiaeth uwch.

H. Rhaglenni Mynediad i AB

Mae Rhaglenni Mynediad i AB wedi'u hanelu at ddysgwyr sydd efallai wedi cofrestru'n hwyrach yn y flwyddyn academiaidd a/neu sy'n ansicr pa lwybr i'w ddewis. Mae'r rhaglen yn ei gwneud yn bosibl cael blas ar alwedigaeth. Diben y rhaglen Mynediad i AB yw galluogi'r dysgwr i feithrin sgiliau galwedigaethol hanfodol ac ymarferol ac i gadarnhau'i ddewis o ran galwedigaeth

I. Rhaglenni Mynediad i AU

Mae rhaglenni Mynediad i AU wedi'u hanelu at ddysgwyr sydd â phrofiad bywyd y tu allan i addysg, ac sydd am gael darpariaeth Prifysgol, ond nad oes ganddynt y cymwysterau

angenrheidiol i wneud hynny. Mae rhaglenni Mynediad i AU ar gael mewn amrywiaeth o lwybrau a dylent anelu at ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder i baratoi dysgwyr ar gyfer mynd i'r brifysgol ac ymlaen i astudio'r llwybr a ddewisir.

J. Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr

Darparwyd y cyllid ychwanegol hwn i gydnabod y ffaith fod anawsterau wedi dod i ran dysgwyr o ganlyniad i bandemig y Covid-19. O'r herwydd, mae'n bosibl y bydd angen cymorth ac arweiniad pellach ar ddysgwyr er mwyn helpu i ddiogelu eu lles, helpu i feithrin eu gwytnwch a'u helpu i gyflawni eu cymwysterau'n llwyddiannus.

I. Awdurdodau Lleol

Bydd y ddarpariaeth yn cael ei monitro trwy gyflwyno data ar ffurf taenlenni, gan nodi cyllid fesul awr ar gyfer dysgu seiliedig ar grŵp a/neu ddysgu 1:1.

II. Colegau Addysg Bellach

Bydd y ddarpariaeth yn cael ei fonitro drwy ddata a gyflwynir drwy LLWR yn nodi cyllid grŵp a/neu 1:1 yr awr. Pan fydd dysgwyr yn ymgymryd ag oriau Adferiad a Dilyniant Dysgu ychwanegol ochr yn ochr â'u rhaglen amser llawn, dylid cofnodi'r oriau hyn ar wahân ar LLWR fel rhaglen(ni) rhan-amser.

III. Dysgu Mewn Grŵp

Ar gyfer dysgu mewn grŵp, dylai cod y rhaglen ymwneud â sector y rhaglen amser llawn. Er enghraifft, os yw dysgwr ar raglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymgymryd ag oriau ychwanegol mewn grŵp, yna dylid cofnodi'r **nifer amcangyfrifedig o oriau (LP69)** yn erbyn cod 0100XXXR. Sylwer, os nad yw'r cod rhaglen oriau ychwanegol yn cyd-fynd ag ardal sector y rhaglen llawn-amser, bydd yr oriau hyn yn cael eu dangos fel rhai anghymwys ar yr adroddiad cyllido..

Yn unol â'r holl raglenni, pan fydd dysgwr yn gadael o fewn yr 8 wythnos gyntaf, ni fydd unrhyw gyllid yn cyd-fynd â'r dysgwr hwnnw.

Unwaith y bydd yr oriau ychwanegol wedi'u dosbarthu'n llawn, dylid diweddarau'r **union nifer o oriau (LP71)** i adlewyrchu oriau a gyflwynwyd. Dim ond o LP69 y mae angen i hyn newid lle mae newid sylweddol i'r oriau gwreiddiol sydd wedi'u hamserlennu. Nid oes angen newid i adlewyrchu nad oedd dysgwr yn bresennol am bythefnos, er enghraifft.

IV. Dysgu 1:1

Ar gyfer oriau 1:1, dylid defnyddio'r cod rhaglen 9900XXXR. Dylid defnyddio hwn ni waeth beth fo maes sector pwnc y rhaglen amser llawn. Dylid cofnodi **nifer yr oriau a amcangyfrifir (LP69)** yn erbyn y cod rhaglen hwn.

Unwaith y mae'r oriau 1:1 ychwanegol wedi'u darparu'n llawn, dylid diweddarau **nifer gwirioneddol yr oriau (LP71)** i adlewyrchu'r oriau gwirioneddol a ddarparwyd a dylai hyn gyfateb i systemau monitro mewnol y priod sefydliad sy'n logio'r cymorth 1:1.

K. Lleoliadau Profiad Gwaith

Mae hwn yn disodli'r cyllid Rhaglenni Arloesi blaenorol yn uniongyrchol. Prif nod y Lleoliadau Profiad Gwaith yw rhoi cymorth i Sefydliadau Addysg Bellach i gydweithio i archwilio ffyrdd newydd o ddysgu ac i ddatblygu ac ehangu gweithgareddau, adnoddau neu raglenni presennol mewn ffordd sy'n cefnogi nifer y dysgwyr sy'n manteisio arnynt a/neu ddeilliannau dysgwyr yn y ffordd orau, Mae tair rhaglen ar wahân wedi cael eu cymeradwyo i'w darparu:

- Rhaglen y Dyfodol
- Rhaglenni Estynedig Lleoliadau
- Academiâu Sgiliau Sectorau â Blaenoriaeth

Mae gan bob un o'r Rhaglenni Lleoliadau Profiad Gwaith fanyleb ar wahân. Mae copïau ar gael ar gais gan y Tîm Buddsoddi a Pherfformiad.

Bydd deilliannau darparu a dysgu'r rhaglenni'n cael eu monitro trwy'r adroddiadau LLWR Inform amser llawn a rhan-amser perthnasol.

L. Rhaglenni Dysgu Cynyddol yn y Gweithle (Pob lefel)

Mae rhaglenni dysgu cynyddol yn y gweithle yn cynyddu nifer safonol yr oriau dysgu er mwyn cynyddu elfen dysgu yn y gweithle y rhaglen, a hynny gyda'r nod o baratoi mwy o ddysgwyr ar gyfer gwaith. Nid yw'r rhaglen yn anelu at ddarparu pythefnos o 'brofiad gwaith', ond at gynnig cyswllt rheolaidd â chyflogwr i'r dysgwr drwy gydol y rhaglen ddysgu.

M. Rhaglenni Estynedig

Mae Rhaglenni Uwch ar gael ar lefelau 2 a 3 mewn tri maes yn y Sectorau Pwnc: Peirianeg, Technoleg Gwybodaeth Digidol a Chyfryngau yn y Dyfodol. Prif nod rhaglenni Gwell yw paratoi cyfranogwyr ar gyfer mynediad i gyflogaeth drwy'r Rhaglen Brentisiaethau lle byddant yn gweithio tuag at fframwaith Prentisiaeth.

Mae Rhaglenni Estynedig yn cynyddu nifer safonol yr oriau dysgu a ddarperir gan Sefydliadau Addysg Bellach, o 16 awr ofynnol yr wythnos i hyd at 30 awr yr wythnos, er mwyn cyflawni cwricwlwm penodedig i ddiwallu anghenion cyflogwyr; darparu cymwysterau i ddysgwyr a fydd yn diwallu anghenion cyflogwyr a nodwyd yn y rhanbarth; ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwyr drwy elfen lleoliad gwaith y rhaglen ddysgu

Mae gan bob un o'r Rhaglenni Estynedig ei manyleb ei hun, sy'n cynnwys gofynion mynediad. Mae copïau ar gael ar gais gan y Tîm Buddsoddi a Pherfformiad.

N. Prentisiaethau Iau

Mae Prentisiaethau Iau yn cynnig cyfle i ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 astudio'n llawn-amser mewn coleg am yrfa yn y dyfodol, o'r adeg pan fyddant yn 14 oed. Mae'n cynnig rhaglen dwy flynedd o hyd o addysg cysylltiedig â gwaith, gan ymgorffori profiad gwaith, ochr yn ochr â chwrs Lefel 2 sydd gyfwerth â phedwar neu bump TGAU, mewn ystod o wahanol lwybrau galwedigaethol.

Yn unol â'r [Canllawiau Dysgu 14-16](#), dylai pob prentis iau hefyd astudio cymhwyster 'heriol, uchelgeisiol ac ymestynnol' mewn Mathemateg a Saesneg. Ar gyfer mwyafrif y dysgwyr, dyma fydd y cymwysterau TGAU newydd Gwneud-i-Gymru mewn Mathemateg a Saesneg, sy'n cael eu haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025: [Mathemateg a Rhifedd \(Dyfarniad Dwbl\)](#) a [Iaith a Llenyddiaeth Saesneg \(Dyfarniad Dwbl a Sengl\)](#).

Dylai fod gan bob Prentis iau fynediad at gefnogaeth ar gyfer dysgu, cymorth i reoli ymddygiad a Swyddog Lles dynodedig i'w helpu gyda materion o ddydd i ddydd a darparu gofal bugeiliol.

Nod y Brentisiaeth iau yw gwneud y dysgwr yn gyflogadwy neu'n barod i symud ymlaen i brentisiaeth neu gwrs galwedigaethol lefel uwch yn 16 oed.

Ariennir y rhaglen brentisiaethau iau yn bennaf gan yr Awdurdod Lleol ac felly mae'n hanfodol bod cytundeb rhwng yr Awdurdod Leol a'r Coleg cyn cytuno ar y ddarpariaeth hon.

Gofynion Rhaglenni Llawn-Amser - Rhaglenni Galwedigaethol (ac eithrio Mynediad i AU a Lefel 4)

Mae i bob rhaglen ddysgu bedair elfen:

- y Prif Gymhwyster/Gymwysterau;
- y Craidd;
- Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant; a
- Phrofiad Cysylltiedig â Gwaith.

A. Y Prif Gymhwyster/Gymwysterau

Rhaid i'r prif gymwysterau mewn rhaglenni dysgu gael eu dewis o blith y rheini sydd wedi cael eu rhestru ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru yn y categorïau Cymeradwy neu Ddynodedig o gymwysterau a rhaid iddynt ymwneud â maes dysgu'r rhaglen.

Mae Cymwysterau yng Nghymru yn parhau i fod yn brif gronfa ddata cyfeirio ar gyfer yr holl gymwysterau a reoleiddir sy'n gymwys ar gyfer cyllid ôl-16 yng Nghymru, yn cynnwys cymwysterau cymeradwy a dynodedig sydd wedi'u targedu'n bennaf at ddysgwyr o dan 19 oed. Gellir cyrchu'r gronfa ddata drwy'r ddolen ganlynol: [Cymwysterau yng Nghymru](#)

Rhaid i'r prif gymhwyster/gymwysterau gyfrif am dros 50 y cant o gyfanswm Oriau Cyswllt Dan Arweiniad y rhaglen; y targed delfrydol yw 70 y cant o gyfanswm yr Oriau Cyswllt Dan Arweiniad.

B. Y Craidd

Dylid cefnogi pob dysgwr i wella'i sgiliau rhifedd a llythrennedd drwy gydol ei raglen ddysgu. Gall dysgwyr wella'u sgiliau drwy un o'r canlynol, neu gyfuniad ohonynt: y Dystysgrif Her Sgiliau, ar ei phen ei hun neu fel rhan o'r Fagloriaeth; ailsefyll arholiadau TGAU neu o leiaf

2/3 cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru, yn unol â chanlyniad asesiad Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru, yn ogystal â sesiynau â thiwtor.

Dylai dysgwyr ar raglen lefel 3 gwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau (a Bagloriaeth Cymru cysylltiedig) a dylid eu cofrestru ar gyfer y lefel uwch, nid lefel is. Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw dysgwr yn dilyn cwrs Bagloriaeth Cymru, mae'n ofynnol iddo ddilyn o leiaf ddau neu dri Chymhwyster Sgiliau Hanfodol ar y lefel berthnasol, ar sail canlyniad asesiad Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru.

Mae rhaglenni nad ydynt yn seiliedig ar Fagloriaeth Cymru yn cynnwys gofyniad sylfaenol o ddau neu dri Sgil Hanfodol, ynghyd ag amser tiwtorial a phrofiad cysylltiedig â gwaith. Mae'r gofynion wedi'u diffinio ar gyfer pob lefel a maes dysgu.

Gall lefel y Sgiliau Hanfodol fod yn wahanol i'r prif gymhwyster/gymwysterau ar sail deilliannau'r asesiad cychwynnol/diagnostig ar gyfer pob dysgwr. Gall unedau Sgiliau Hanfodol fod ar yr un lefel, neu ar un lefel yn uwch neu'n is, ond dylai dysgwyr feithrin y sgiliau sy'n ofynnol i gyflawni'r prif gymhwyster.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr sy'n gweithio tuag at radd C mewn TGAU Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf fel rhan o'u rhaglen astudio ddilyn Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif ar wahân ochr yn ochr â phob TGAU.

Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau penodol lle bydd Sgiliau Hanfodol ar wahân yn ofynnol, e.e. er mwyn cyflawni prif gymhwyster neu symud ymlaen i brentisiaeth neu brentisiaeth uwch.

C. Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant

Dylai'r elfen hon o'r rhaglen gael ei theilwra i ddiwallu anghenion penodol y dysgwr, yn ogystal ag anghenion lleol ac anghenion cyflogwyr penodol. Dylai'r cymwysterau a ddarperir yn rhan o Ddysgu Cymunedol â Ffocws ychwanegu gwerth at raglen drwy feithrin sgiliau ehangach, neu drwy ddatblygu sgiliau i lefel uwch i gynorthwyo'r dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaeth bellach. Cyflawnir yr elfen Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant drwy ddarparu unedau Dysgu Gydol Oes Gyda Sicrwydd neu ddysgu cydnabyddedig cyfatebol a restrir ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru, a gall fod ar lefel sy'n is neu'n uwch na'r prif gymhwyster.

Ni fydd angen i bob dysgwr ymgymryd â Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant oherwydd efallai na fydd hyn yn ofynnol os yw'r prif gymhwyster wedi bodloni gofynion y dysgwr yn llawn. Mae gan ddarparwyr yr hyblygrwydd i deilwra'r Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant i ddarparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr unigol, er mwyn iddynt feithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd neu sgiliau personol a chymdeithasol.

D. Profiad Cysylltiedig â Gwaith

Mae'r elfen hon o'r rhaglen yn caniatáu ar gyfer darparu Profiad Cysylltiedig â Gwaith. Mae hyn yn cynnwys neilltuo amser i ddysgwyr feithrin a mireinio eu sgiliau ymarferol, a ddylai eu helpu i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

Bydd y Profiad Cysylltiedig â Gwaith a ddarperir yn amrywio ar draws y rhaglenni i gynnwys gweithgareddau sy'n rhan o elfen asesedig cymhwyster yn y maes galwedigaethol.

Darperir nifer argymelledig o oriau lleoliad gwaith ar gyfer pob rhaglen yn y 'Cyfeiriadur Rhaglenni' yn Atodiad A.

Dylai'r oriau seiliedig ar waith arfaethedig ar gyfer y rhaglen ddysgu gyfan gael eu hamcangyfrif mor gywir â phosibl ar ddechrau rhaglen ddysgu dysgwr, a chael eu cofnodi yn y maes LP72 (Oria Seiliedig ar Waith Gwirioneddol).

Gofynion Rhaglen Llawn Amser – Addysg Gyffredinol, Mynediad i AU a Lefel 4

Mae rhaglenni dysgu yn cynnwys dwy gydran:

- y Prif Gymhwyster/Gymwysterau; a
- Ffocws y Diwydiant Dysgwyr Cymunedol (CLIF).

A. Prif Gymhwyster(au)

Rhaid dewis prif gymwysterau o fewn rhaglenni dysgu o'r rhai a restrir ar gronfa ddata QiW a rhaid iddynt fod yn berthnasol i faes dysgu'r rhaglen.

QiW yw'r prif bwynt cyfeirio o hyd ar gyfer yr holl gymwysterau cymeradwy a dynodedig sydd wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed ac sy'n gymwys i'w defnyddio o fewn rhaglenni dysgu. Gellir cyrchu'r gronfa ddata trwy'r ddolen ganlynol: [Cymwysterau yng Nghymru](#)

Ar gyfer rhaglenni Mynediad i AU, ni fydd y prif gymhwyster ar QiW ond dylai fod yn gymhwyster a gymeradwyir gan QAA.

Rhaid i'r prif gymhwyster/cymwysterau gyfrif am dros 50 y cant o gyfanswm yr Oria Cyswllt dan Arweiniad (GCH) ar gyfer y rhaglen, a'r targed delfrydol yw 70 y cant o gyfanswm y GCH.

B. Ffocws y Diwydiant Dysgwyr Cymunedol (CLIF)

Dylid teilwra'r elfen hon o'r rhaglen i ddiwallu anghenion penodol y dysgwr, ac anghenion cyflogwyr lleol a phenodol. Dylai cymwysterau a gyflwynir o dan y CLIF ychwanegu gwerth at raglen drwy ddatblygu sgiliau ehangach neu drwy ddatblygu sgiliau i lefel uwch i gynorthwyo dilyniant i gyflogaeth neu astudiaethau pellach. Cyflawnir CLIF drwy ddarparu unedau QALL neu ddysgu cydnabyddedig cyfatebol a restrir ar QiW a gellir ei gyflwyno ar lefel is neu uwch na'r prif gymhwyster.

Ni fydd angen i bob dysgwr ymgymryd â'r CLIF oherwydd efallai na fydd angen hyn os yw'r prif gymhwyster wedi mynd i'r afael â gofynion y dysgwr yn llawn. Mae gan ddarparwyr yr hyblygrwydd i deilwra'r CLIF i ddarparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr unigol ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd neu sgiliau personol a chymdeithasol.

C. Cyfwerth UG/A2

Lle nad oes union raglen sy'n adlewyrchu'r gweithgareddau dysgu a ddilynir gan y dysgwr, dilynwch y rheolau cyffredinol canlynol:

- cymysgedd o gymwysterau UG ac A2 - gwnewch yn gyfwerth ag A2
- cymysgedd o gymwysterau UG a chymwysterau eraill (e.e. BTEC) - gwnewch yn gyfwerth ag UG
- cymysgedd o A2 a chymwysterau eraill (e.e. BTEC) - gwnewch yn gyfwerth ag A2
- lle bydd dysgwr yn dilyn cymwysterau TGAU fel rhan o raglen Safon Uwch neu raglen gyfatebol, disgwylir bod y cymwysterau TGAU yn cael eu cyflawni fel rhan o elfen 'CLIF' y Rhaglen Ddysgu
- os yw dysgwr yn ymgymryd â rhaglen alwedigaethol ond hefyd yn dilyn cwrs Safon UG, dylid defnyddio cod rhaglen alwedigaethol.

Astudio Rhan-amser

Mae astudio rhan-amser ar gael ar draws pob lefel a maes pwnc sector, ac mae'n seiliedig ar ddysgu gweithgareddau yn hytrach na rhaglenni dysgu llawn.

Dylid anelu astudio'n rhan-amser yn gyffredinol at ddysgwyr cyflogedig, gan ganolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau neu anghenion hyfforddi / ailhyfforddi.

Mae astudio rhan-amser ar gael ar draws pob lefel a maes pwnc sector, ac mae'n seiliedig ar ddysgu gweithgareddau yn hytrach na rhaglenni dysgu llawn. Dylid anelu astudio'n rhan-amser yn gyffredinol at ddysgwyr cyflogedig, gan ganolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau neu anghenion hyfforddi / ailhyfforddi.

A. Cymwysterau Galwedigaethol

Mae hyn yn disodli'r fethodoleg gyllido 'NVQs a Ddarperir yn y Gweithle' flaenorol yn uniongyrchol. I ateb y gofynion ar gyfer cyllid, rhaid i gymwysterau fodloni'r meini prawf canlynol yn llawn:

- bod wedi'u dynodi a chael eu rheoleiddio gan Cymwysterau yng Nghymru
- bod wedi'u hamlygu fel y math 'Cymhwyster Galwedigaethol' ar Cymwysterau yng Nghymru
- bod ag is-bwrpas ar Cymwysterau yng Nghymru a sefydlwyd fel 'D1. Cadarnhau cymhwysedd mewn rôl alwedigaethol i'r safonau gofynnol'

B. Cyfrifon Dysgu Personol

Gellir cyllido'r Rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol trwy system bandio 26 Haen, y caiff y cymwysterau cymeradwy eu mapio oddi mewn iddi.

Prif nod y rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol yw galluogi unigolion sydd mewn gwaith i uwchsgilio ac ailsgilio mewn sectorau â blaenoriaeth, i wella eu potensial o ran gyrfaedd ac enillion, ac i helpu i godi'r incwm canolrifol yng Nghymru.

Tystiolaeth o Orlau ac Amserlen y Rhaglen

Mae'r Cyfeiriadur Rhaglenni yn amlinellu nifer yr oriau sy'n cael eu hariannu ar gyfer pob rhaglen ddysgu. Nid oes disgwyl i Golegau gyflawni union nifer yr oriau ar gyfer pob maes, ond dylid ei ddilyn fel canllaw cyffredinol. Fodd bynnag, disgwylir i gyfanswm yr oriau sy'n cael eu cyflawni fod o fewn goddefiant rhesymol i'r oriau sy'n cael eu hariannu; at ddibenion archwilio, y goddefiant rhesymol yw 10%.

I ddibenion archwilio, mae angen i sefydliadau allu dangos mewn fformat syml eu bod yn cofnodi oriau a gynlluniwyd yn unol â'r oriau ar yr amserlen, y cytundeb dysgu neu ddogfen debyg.

Diwygio Rhaglen – Tynnu'n Ôl a Throsglwyddiadau

Ystyrir bod dysgwr wedi tynnu'n ôl o raglen astudio os gwyddys ei fod wedi penderfynu tynnu'n ôl o'r rhaglen astudio, neu drosglwyddo o raglen astudio amser llawn i raglen astudio ran-amser neu o raglen astudio ran-amser i raglen astudio amser llawn. Dylai naill ai'r dysgwr neu diwtor y dysgwr fod wedi cadarnhau hyn mewn ysgrifen.

Yn ogystal â hynny, ar gyfer rhaglenni amser llawn a rhaglenni rhan-amser sy'n fwy na 24 wythnos o hyd nad ydynt yn rhaglenni dysgu o bell, rhaid ystyried bod dysgwr wedi'i dynnu'n ôl os nad yw wedi mynychu dosbarthiadau ers o leiaf 4 wythnos barhaus, ac eithrio'r gwyliau. Bydd hynny onid oes tystiolaeth archwiliadwy o fwriad i ddychwelyd. Mae tystiolaeth o gydymffurfio yn cynnwys llythyr y dysgwr neu'r cyflogwr, neu nodiadau mewnol ffurfiol fel adroddiadau tiwtorial, contractau ymddygiad neu gynlluniau gweithredu personol.

Ar gyfer darpariaeth dysgu o bell, byddai dysgwr sydd wedi'i dynnu'n ôl yn ddysgwr sy'n methu bodloni'r canllawiau canlynol ynghylch cyfranogiad neu gyswllt:

- a) presenoldeb mewn canolfan neu fewngofnodi i ddeunyddiau dysgu
- b) derbyn gwaith neu brosiectau gan y tiwtor (electronig neu gopi caled)
- c) gohebiaeth â'r tiwtor yn dangos bod y myfyriwr yn dal yn weithgar wrth anelu at ei nod dysgu, gan gynnwys cysylltiadau cynlluniedig

Rhaid i sefydliadau sicrhau bod dysgwyr yn cael eu tynnu'n ôl o raglen os nad ydynt wedi bod i ddosbarthiadau am 4 wythnos yn barhaus, ac eithrio'r gwyliau. Rhaid cymryd camau i dynnu'n ôl mewn modd amserol, a lle nad yw dysgwr wedi'i dynnu'n ôl, ond wedi bod yn absennol ers dros 4 wythnos, rhaid darparu tystiolaeth archwiliadwy o fwriad i ddychwelyd.

Os nad yw dysgwr wedi bod yn bresennol yn ystod rhaglen, ac y bernir ei fod wedi tynnu'n ôl, rhaid i'r sefydliad addasu'r cofnod i adlewyrchu bod y dysgwr wedi tynnu'n ôl. Rhaid i sefydliadau gofnodi dyddiadau tynnu'n ôl yn brydlon ac yn fanwl gywir er mwyn adlewyrchu'r dyddiad olaf y cofnodwyd presenoldeb gwirioneddol.

Ym mhob achos, rhaid ystyried mai dyddiad tynnu'n ôl y dysgwr yw dyddiad olaf ei bresenoldeb gwirioneddol, nid y dyddiad pan nodwyd ar gofnod y myfyriwr ei fod wedi tynnu'n ôl. Er ei bod yn bosibl na phennir bod dysgwyr wedi tynnu'n ôl nes i 4 wythnos fynd heibio ers eu presenoldeb diwethaf neu, yn achos dysgu agored ac o bell, ers y cyswllt a fethwyd, rhaid cofnodi'r dyddiad diwethaf o gyfranogiad gwirioneddol fel y dyddiad tynnu'n ôl.

Ni chaiff sefydliadau gofnodi dysgwyr sydd wedi tynnu'n ôl fel dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cwrs, ac ni chant fel arfer eu cofnodi fel myfyrwyr sydd wedi cyflawni. Rhaid cofnodi'n gywir hefyd a yw dysgwyr wedi trosglwyddo i gymhwyster arall, neu wedi tynnu'n ôl heb drosglwyddo.

Wrth wirio'r mecanwaith tynnu'n ôl, rhaid i sefydliadau fod â systemau cadarn ar waith i sicrhau bod dysgwyr â phresenoldeb anghyson oherwydd salwch neu amgylchiadau dilys eraill yn cael eu nodi. Lle bo rhesymau cyfiawn dros bresenoldeb anghyson, rhaid i sefydliadau gadw tystiolaeth o asesiad a/neu hysbysiad gan y dysgwr, rhiant, eiriolwr neu gynghorydd meddygol fod bwriad cryf i ddychwelyd. Yn yr achosion eithriadol hyn, nid oes rhaid cofnodi'r dysgwr fel dysgwr sydd wedi tynnu'n ôl o fewn y graddfeydd amser arferol. Os nad yw'r dysgwr yn dychwelyd, rhaid pennu dyddiad y presenoldeb olaf fel y dyddiad tynnu'n ôl.

Cymhwystra Dysgwyr

A. Cyflwyniad

1. Mae'r adran hon yn nodi'r rheolau ar gymhwystra dysgwyr ar gyfer y Fframwaith Cyllido Ôl-16 yng Nghymru, ynghyd â chanllawiau ar ddangos tystiolaeth o gymhwystra dysgwyr i gynorthwyo sefydliadau¹ yn eu prosesau cofrestru.
2. Bydd y rhan fwyaf o bobl 16 oed a throsodd, sy'n byw yn gyfreithiol yng Nghymru, yn gymwys i dderbyn cyllid ôl-16, ac mae'r eithriadau i hyn wedi'u nodi ym mharagraffau 33 i 37. Mae'r cyngor ym mharagraffau 11 i 14 yn darparu rhagor o wybodaeth am y gofynion cymhwystra manwl. I gynorthwyo'r sefydliadau a gyllidir i leihau i'r eithaf y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chymhwystra dysgwyr, y cwbl y bydd angen i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ei wneud yw cadarnhau ar eu ffurflen gofrestru eu bod wedi preswyllo'n gyfreithlon yn y DU am y 3 blynedd flaenorol. I'r nifer fach o ddysgwyr cymwys nad ydynt yn bodloni'r prawf hwn, dylai sefydliadau gymryd camau i'w hargyhoeddi eu hunain bod y dysgwr yn preswyllo'n gyfreithlon yn y DU. I gynorthwyo sefydliadau ac archwilwyr cyllid ceir rhagor o gyngor ynghylch tystiolaeth o gydymffurfio â rheolau cymhwystra dysgwyr ym mharagraffau 38 i 46.

B. Dysgwyr o'r UE ac Ardal Economaidd Ewrop (AEE)

3. Mae'r DU wedi gadael yr UE ac mae symudiad rhydd rhwng y DU a'r UE wedi dod i ben. Mae [system fewnfudo seiliedig ar bwyntiau'r](#) DU yn berthnasol ac yn trin dinasyddion yr UE (ac eithrio dinasyddion Iwerddon) a dinasyddion nad ydynt yn hanu o'r UE yn gyfartal. Nid yw dysgwyr sy'n ddinasyddion gwledydd yr UE (neu AEE) (ac eithrio dinasyddion Iwerddon) a ddaeth i mewn i'r DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020 yn gymwys yn awtomatig i gael cyllid a rhaid iddynt allu dangos eu bod yn preswyllo'n gyfreithlon yn y DU i gael eu cyllido.

¹ Defnyddir y term 'sefydliadau' i gynnwys ysgolion, colegau a'r holl ddarparwyr eraill. Bydd y mathau unigol o sefydliadau'n cael eu defnyddio lle nad yw'r canllawiau cyllido ond yn berthnasol i fath penodol o sefydliad. Yn yr un modd, defnyddir 'dysgwyr' fel cyfeiriad cyson at ganllawiau sy'n berthnasol i'r holl fyfyrwyr a disgyblion.

4. Rhaid i ddysgwyr sy'n ddinasyddion gwledydd yr UE (neu AEE) neu'n blant i weithwyr Twrciaidd sy'n preswyllo yn y DU ac wedi dechrau eu rhaglen ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 gael eu trin yn gydradd â thrigolion y DU. Unwaith y byddant wedi cofrestru byddant yn gymwys i gael cyllid trwy gydol eu rhaglen astudio. Mae holl ddinasyddion Iwerddon yn parhau i fod yn gymwys yn awtomatig i gael cyllid dan gonsesiynau mewnfudo y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Iwerddon cyn bod y DU yn aelod o'r UE. Bydd y rhai sydd eisoes wedi cael statws preswlydd cyn-sefydlog a statws preswlydd sefydlog y Swyddfa Gartref yn gymwys dan baragraff 12 tra dylai'r rhai sy'n dal i gwblhau'r broses hon gael eu hasesu dan baragraff 13.

C. Cymhwysra Preswyllo

5. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r meini prawf cymhwysra cyllid ôl-16 ar gyfer rhaglenni astudio. Dim ond dan unrhyw un pwynt neu is-baragraff o'r pwyntiau neu is-baragraffau unigol ym mharagraffau 11 i 14 y mae angen i ddysgwyr fod yn gymwys. Mae'r holl ddysgwyr sy'n gymwys i ddechrau eu rhaglen astudio'n gymwys trwy gydol eu rhaglen astudio. Mae paragraffau 33 i 37 yn egluro'r prif eithriadau sy'n cwmpasu dysgwyr anghymwys at ddibenion cyllid.
6. At ddibenion cyllid, rhaid i sefydliadau gadarnhau cymhwysra dysgwr ar ddechrau eu rhaglen. Rhaid i sefydliadau geisio cyngor gan Medr ynghylch unrhyw achos lle maent yn cael anhawster asesu cymhwysra dysgwr.
7. I fod yn gymwys i gael cyllid rhaid bod gan y dysgwr hawl gyfreithiol i breswyllo yn y DU ar ddechrau eu rhaglen astudio. Fel arfer bydd person sy'n ddarostyngedig i orchymyn allgludo gan y Swyddfa Gartref yn anghymwys i gael cyllid nes bod eu sefyllfa wedi cael ei datrys wrth fodd y Swyddfa Gartref. Mae dysgwyr y mae eu caniatâd mewnfudo i ddod i mewn i'r DU yn un fel 'Ymwelydd' (a adwaenir yn gyffredin hefyd fel 'Twrist') hefyd yn anghymwys i gael cyllid amser llawn 16 i 18.
8. Wrth bennu cymhwysra dysgwr, rhaid i sefydliadau hefyd eu hargyhoeddi eu hunain bod tebygolrwydd rhesymol y bydd y dysgwr yn gallu cwblhau eu rhaglen astudio cyn ceisio cyllid ar gyfer y dysgwr. Dylai hyn gynnwys ymarferoldeb darparu lle ar gyfer dysgwr a fydd o bosibl yn methu â chwblhau eu rhaglen os ydynt yn debygol o adael y wlad yn barhaol yn ystod eu rhaglen astudio. Pan fo dysgwr yn gwneud cais am raglen astudio lle mae eu caniatâd cyfreithiol cyfredol i aros yn y DU yn dod i ben chwe mis neu fwy ar ôl iddynt ddechrau, yna gall sefydliadau ganiatáu iddynt gofrestru: mae Medr yn ystyried ei bod yn ddigon i sefydliadau ddibynnu ar gadarnhad gan y dysgwr (a/neu eu teulu) eu bod yn bwriadu ymgeisio am yr estyniad angenrheidiol i'w caniatâd i aros tra pery eu rhaglen astudio. At ddibenion y paragraff hwn, rhaid i sefydliadau dybio bod gan holl ddysgwyr AEE a oedd yn preswyllo yn y DU cyn 1 Ionawr 2021 hawl gyfreithiol i aros yn y DU tra pery eu rhaglen astudio. Unwaith y mae dysgwr wedi cofrestru, disgwylir i'r sefydliad gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gall y dysgwr gwblhau eu rhaglen.
9. Fel arfer bydd dysgwyr sy'n mynychu rhaglenni o fwy nag un tymor o hyd, ac sy'n gymwys i gael cyllid ar ddechrau eu rhaglen, yn gymwys i gael cyllid trwy gydol eu rhaglen astudio yn ogystal â rhaglenni astudio dilynol a gyllidir y maent yn eu hastudio ar unwaith wedi i'w rhaglen gychwynnol a gyllidir ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n astudio rhaglenni astudio olynol heb unrhyw doriad yn eu hastudiaethau

heblaw am gyfnodau gwyliau arferol. Yn yr un modd, mae dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cyllid ar ddechrau eu rhaglen astudio'n annhebygol iawn o ddod yn gymwys i gael cyllid yn ystod cyfnod eu rhaglen astudio.

D. Diffiniad o fod yn Preswyllo Fel Arfer

10. At ddibenion cyllid, mae Medr yn ystyried bod preswyllo fel arfer mewn gwlad benodol yn golygu unrhyw berson sy'n preswyllo fel arfer ac yn gyfreithlon o ddewis ac at ddiben sefydlog yn y wlad honno. Dylid anwybyddu absenoldebau dros dro o'r ardal berthnasol. Bydd rhywun nad yw wedi bod yn preswyllo fel arfer am ei fod ef neu ei bod hi neu fod rhiant neu briod neu bartner sifil y person wedi bod yn gweithio dramor dros dro yn cael eu trin fel pe baent wedi bod yn preswyllo fel arfer yn yr ardal berthnasol.

E. Dysgwyr sy'n Gymwys i gael Cyllid

11. Bydd y personau canlynol yn gymwys i gael cyllid (mae'r grwpiau hyn yn cyfateb i rai o'r grwpiau yn [Rheoliadau Addysg \(Ffioedd Dysgwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth\) \(Diwygio\) \(Cymru\) 2021](#)):
- a) person sydd, ar y 'dyddiad perthnasol'², yn 'breswilydd sefydlog' yn y DU, ac sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd (hynny yw gan gynnwys Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) am y 3 blynedd cyn y 'dyddiad perthnasol'. Mae 'preswilydd sefydlog' yn golygu person sydd wedi'i sefydlu yn y DU yn unol ag ystyr adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971; hynny yw, bod ganddynt naill ai ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yn y Deyrnas Unedig³, eu bod yn ddinesydd Gwyddelig neu fod ganddynt hawl i breswyllo yn y DU. Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael cyllid yn cynnwys:
 - i. Person sy'n ddinesydd y DU neu berson arall sydd â hawl i breswyllo⁴ yn y DU sydd wedi bod yn preswyllo'n arferol yn y DU a'i Hynysoedd neu Diriogethau Tramor Prydeinig, neu aelodau o'u teulu.
 - ii. Dinasyddion Iwerddon

² Mae'r term 'dyddiad perthnasol' yn cyfeirio at 'ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd (neu addysgu) gyntaf y cwrs' ac fe ddiffinnir hyn fel 1 Medi os yw'r flwyddyn academiaidd yn dechrau ar 1 Awst

³ Caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu aros yw caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y DU heb unrhyw gyfyngiadau amser ar hyd yr arhosiad.

⁴ Hawl preswyllo yw'r hawl i fyw a gweithio yn y DU. Mae'r rhai sydd â hawl i breswyllo yn cynnwys:

- Unigolion sydd â Thystysgrif Hawl i Breswyllo
- Rhai y mae eu pasbort wedi'i arnodi i ddangos bod ganddynt hawl i breswyllo yn y DU.
- Dinasyddion Prydeinig (gan gynnwys rhai sydd â thystysgrif naturiol neu gofrestru fel dinesydd Prydeinig)
- Dinasyddion Tiriogaethau Dibynnol Prydain (a elwir bellach yn Ddinasyddion Tiriogaethau Tramor Prydain)
- gwladolion Gwyddelig
- Gwladolion o'r UE neu'r AEE sydd â statws sefydlog
- Aelodau o deulu gweithwyr yr AEE neu Swisaidd sydd â statws sefydlog

- iii. Dinasyddion yr UE neu aelodau o deulu⁵ gweithwyr yr AEE a Swisaidd⁶ (yn preswyllo yn y DU cyn 1 Ionawr 2021) gyda statws preswlydd sefydlog neu gyn-sefydlog.⁷
- iv. Dysgwyr sy'n blant i weithwyr Twrcaidd⁸ lle mae'r gweithiwr Twrcaidd wedi'i gyflogi'n gyfreithlon ac wedi preswyllo yn y DU cyn 1 Ionawr 2021
- v. Dinasyddion Tiriogaethau Dibynnol Prydain (a adwaenir bellach fel Dinasyddion Tiriogaethau Tramor Prydain)
- vi. y rhai y mae eu pasbortau wedi cael eu hardystio i ddangos bod ganddynt hawl i breswyllo yn y DU
- vii. y rhai sydd â thystysgrif dinasyddio neu gofrestru fel Dinesydd Prydeinig
- viii. y rhai sydd â fisa Gwladolyn Prydeinig (Tramor) Hong Kong (BN(O))⁹
- ix. Gweithwyr yr AEE a'r Swistir sydd â statws cyn-sefydlog neu sefydlog sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y DU, yr AEE neu Gibraltar, neu aelodau o'u teulu
- x. Gwladolion y DU a oedd yn byw yn yr AEE cyn 1 Ionawr 2021 sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn yr AEE, Gibraltar neu'r DU am dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol ac sydd wedi byw'n barhaus yn yr AEE neu'r DU rhwng 31 Rhagfyr 2020 a'r dyddiad perthnasol, neu aelodau o'u teulu
- xi. Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros¹⁰ fel person gwarchodedig neu aelodau o'u teulu, gan gynnwys rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel person diwladwriaeth neu berson â hawl i aros¹¹ o dan adran¹² 67

⁵Aelod o deulu gwladolyn yr UE neu weithiwr yr AEE yw priod neu'n bartner sifil, plentyn, ŵyr/wyres, rhiant dibynnol neu nain/taid yr unigolyn

⁶Gweithiwr Swisaidd yw gwladolyn Swisaidd sy'n gweithio, ac eithrio gweithiwr trawsffiniol Swisaidd, yn y DU. Yn ogystal â hynny, ceir categorïau penodol o bobl, gan gynnwys gweithwyr trawsffiniol Swisaidd, pobl hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu bobl hunangyflogedig Swisaidd, Ceir rhagor o wybodaeth am y categorïau hyn yn yr Atodlen i'r [Rheoliadau Addysg \(Ffioedd a Dyfarniadau\) \(Cymru\) 2007](#).

⁷Statws Preswlydd Sefydlog – Mae'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn cyfeirio at wladolion yr UE, yr AEE a Swisaidd ac aelodau o'u teulu a oedd yn byw yn y DU cyn diwedd y cyfnod trosiannol (31 Rhagfyr 2020) ac a barhaodd i fyw yn y DU ar ôl y dyddiad hwn, y mae ganddynt hawliau dinasyddion o dan y Cytundeb Ymadael â'r UE, Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA a'r Cytundeb Hawliau Dinasyddion Swisaidd ("y Cytundebau Ymadael"). Gall rhai sy'n bodloni gofynion y Cytundebau Ymadael barhau i breswyllo'n gyfreithlon yn y DU a manteisio ar hawliau cysylltiedig. Mae hawliau'r rhai sy'n symud i'r DU ar ôl diwedd y cyfnod trosiannol (onid oes ganddynt hawliau dinasyddion fel perthynas i rywun sydd eisoes yn y DU) yn ddarostyngedig i drefniadau fisa newydd y Swyddfa Gartref. Gall rhai sydd â hawliau dinasyddion wneud cais am statws preswlydd sefydlog drwy Gynllun Preswyllo'n Sefydlog y Swyddfa Gartref i Ddinasyddion yr UE. Dyfernir y canlynol iddynt:

- Statws preswlydd sefydlog (h.y. caniatâd amhenodol i aros os oes ganddynt yr isafswm o bum mlynedd parhaus o breswyllo'n gyfreithlon yn y DU), neu
- Statws preswlydd cyn-sefydlog (h.y. caniatâd cyfyngedig i aros) os ydynt wedi preswyllo yn y DU am gyfnod byrrach (unrhyw gyfnod preswyllo sy'n fyrrach na phum mlynedd parhaus). Ar ôl pum mlynedd o breswyllo'n gyfreithlon yn y DU gallant wneud cais i newid y statws hwn i statws preswlydd sefydlog, a dylent wneud hynny cyn i'w statws preswlydd cyn-sefydlog ddod i ben.

⁸Gwladolyn o Dwrci sy'n weithiwr yn y DU yw gweithiwr Twrcaidd.

⁹Gellir cyfrif y cyfnod y mae person wedi byw yn Hong Kong cyn dod i mewn i'r DU tuag at y cyfnod cymhwys o 3 blynedd.

¹⁰Mae person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros yn berson sydd wedi cael gwybod gan y Swyddfa Gartref, er nad yw'n gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur, ei fod wedi cael caniatâd i aros yn y DU. Fel arfer rhoddir Diogelwch Dyngarol neu Ganiatâd yn ôl Disgresiwn i berson o'r fath.

¹¹Mae person sydd â chaniatâd diwladwriaeth i aros yn rhywun sydd wedi dod i mewn i'r DU a chael caniatâd i aros fel Person Diwladwriaeth yn unol â pharagraff 405 y Rheolau Mewnffudo.

¹²Caniatâd i aros o dan adran 67 yw person y rhoddir caniatâd iddo aros o dan adran 67 o [Ddeddf Mewnffudo 2016](#). Gelwir hyn hefyd yn ganiatâd o dan y welliant "Dubs".

- xii. Rhai sydd â chaniatâd Calais i aros¹³
- xiii. Personau y rhoddir caniatâd iddynt aros fel partner gwarchodedig neu eu plant

12. Yn ychwanegol at y grwpiau a amlinellir uchod, bydd Medr hefyd yn ystyried bod y grwpiau canlynol o ddysgwyr (gan gynnwys y rhai nad ydynt o bosibl wedi bod yn byw yn y DU am y 3 blynedd ddiwethaf) yn gymwys i gael cyllid:
- a) pobl â statws ffoadur (neu eu priod, eu partneriaid sifil a'u plant¹⁴) (RS)¹⁵, diogelwch dyngarol (HP)¹⁶, caniatâd yn ôl disgresiwn (DL)¹⁷, caniatâd eithriadol i ddod i mewn (ELE) neu ganiatâd eithriadol i aros (ELR)¹⁸
 - b) pobl â statws preswlydd sefydlog diweddar (mae hyn yn golygu'r rhai y rhoddwyd ILE neu ILR, hawl preswyllo neu ddinasyddiaeth Brydeinig iddynt o fewn y 3 blynedd yn union cyn dechrau'r cwrs)
 - c) pobl y rhoddwyd statws preswlydd cyn-sefydlog iddynt yn dilyn ein hymadawiad â'r UE
 - d) priod neu bartner sifil person â statws sefydlog sy'n preswyllo'n gyfreithlon yn y DU
 - e) rhai sydd â chaniatâd y tu hwnt i'r rheolau¹⁹

¹³ Caniatâd i aros o dan Calais yw math o ganiatâd a roddir i rai a gludwyd i'r DU yn rhan o "ymarfer clirio Calais" rhwng Hydref 2016 a Gorffennaf 2017, a oedd o dan 18 ar y pryd, ac oedd â chysylltiadau teuluol cydnabyddedig yn y DU.

¹⁴ Rhaid iddynt fod wedi bod yn aelod o'r teulu ar y dyddiad pan wnaeth y person ei gais am loches.

¹⁵ Ffoadur yw person a gydnabyddir gan y Swyddfa Gartref fel ffoadur, fel y disgrifir yng Nghonfensiwn Genefa 1951. Bydd person sy'n cael statws ffoadur fel arfer yn cael caniatâd i aros yn y DU am bum mlynedd, ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw caiff wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros. Aelod o deulu ffoadur yw person sy'n briod, yn bartner sifil, neu'n blentyn i berson â statws ffoadur; neu blentyn priod neu bartner sifil y ffoadur. Rhaid i aelod teulu'r ffoadur fod wedi bod yn aelod o'i deulu ar y dyddiad pan wnaeth y ffoadur ei gais am loches.

¹⁶ Cyflwynwyd Diogelwch Dyngarol ym mis Ebrill 2003 i ddisodli'r polisi ynghylch Caniatâd eithriadol i ddod i mewn neu aros, a'i bwrpas yw diogelu unigolion nad ydynt yn gymwys i'w diogelu o dan y Confensiwn Ffoaduriaid. Gall y Swyddfa Gartref roi diogelwch dyngarol i rywun y maent yn tybio nad yw'n gymwys i gael lloches, ond sydd er hynny'n wynebu risg o niwed difrifol o'i ddychwelyd i'w wlad tarddiad.

¹⁷ Caniatâd yn ôl disgresiwn i aros yw caniatâd i aros yn y DU am resymau eithriadol. Rhoddir y caniatâd hwn weithiau i unigolyn nad yw'n gymwys i gael lloches ond y mae'r Swyddfa Gartref yn tybio y dylid caniatáu iddo aros am resymau eraill.

¹⁸ Roedd caniatâd eithriadol i ddod i mewn neu aros yn ffurf ar statws mewnfudo a oedd yn arfer cael ei defnyddio cyn mis Ebrill 2003. Fe'i rhoddwyd i geiswyr lloches lle penderfynodd y Swyddfa Gartref nad oeddent yn bodloni'r diffiniad o ffoadur, fel y'i diffinnir yn y Confensiwn Ffoaduriaid, ond y dylid caniatáu iddynt aros yn y DU am resymau eraill.

¹⁹ Mae caniatâd y tu allan i'r rheolau hyn yn cynnwys rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros am resymau eithriadol ac/neu dosturiol sydd y tu hwnt i gwmpas Rheolau Mewnfudo'r DU.

- f) Gwladolion o Wcrain a gefnogwyd drwy'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin²⁰, Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin²¹ neu aelod o deulu agos²² y person hwnnw, Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin²³
- g) Ceiswyr lloches²⁴, gan gynnwys rhai â chais annerbyniol.²⁵

13. Yn ychwanegol at y grwpiau a amlinellir uchod, bydd Medr hefyd yn ystyried bod y grwpiau canlynol o ddysgwyr (gan gynnwys y rhai nad ydynt o bosibl wedi bod yn byw yn y DU am y 3 blynedd ddiwethaf) yn gymwys i gael cyllid:

- a) y rhai sy'n dod gyda neu'n ymuno â'u rhieni neu eu priod neu bartneriaid sifil²⁶ sydd â hawl preswyllo neu ganiatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU (neu sy'n dod gyda neu'n ymuno ag aelodau perthnasol o'u teulu, fel arfer rhieni, sy'n ddinasyddion y DU neu lwerddon), neu'r rhai sy'n blant i ddiplomyddion
- b) y rhai sy'n ddibynyddion i athrawon sy'n dod i'r DU ar gynllun cyfnewid athrawon
- c) y rhai sy'n preswyllo'n gyfreithlon yn y DU (gan gynnwys y rhai a ddaeth i mewn i'r DU yn y 3 blynedd ddiwethaf nad yw neu nad oedd eu rhieni gyda hwy) sy'n ddinasyddion Prydeinig (neu lwerddon) neu y mae eu pasbortau wedi'u hardystio (neu, fel rhan o newid i systemau mewnfudo digidol, naill ai hawlen breswyllo fiometrig, neu statws digidol cyfatebol a/neu lythyr ardystio) naill ai i ddangos bod ganddynt hawl i breswyllo yn y wlad hon neu i ddangos nad oes unrhyw gyfyngiadau ar eu hawl i weithio yn y DU
- d) y rhai sy'n ddibynyddion i oedolion sy'n preswyllo'n gyfreithlon yn y DU y rhoddwyd hawliau mewnfudo iddynt fel gweithwyr i breswyllo yn y DU

²⁰ Roedd y Cynllun Teuluoedd o Wcráin yn galluogi ymgeiswyr i ymuno ag aelodau o'u teulu neu i ymestyn eu harhosiad yn y DU. Peidiodd y cynllun â derbyn ceisiadau o 19 Chwefror 2024 ymlaen.

²¹ Mae'r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin yn galluogi gwladolyn o Wcráin ac aelodau o'i deulu i ddod i'r DU os oes ganddo noddwr wedi'i enwebu o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin. O dan y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin rhaid i bawb wneud cais ar wahân, hyd yn oed plant sy'n teithio gydag aelod o'u teulu.

²² Mewn perthynas â'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin neu Gynllun Noddi ar gyfer Wcráin mae aelod agos o'r teulu yn cynnwys:

- Priod neu bartner sifil
- Partner di-briod (yn byw gyda'i gilydd mewn perthynas ers o leiaf dwy flynedd)
- Plentyn dan 18 oed
- Rhiant (i rai sydd dan 18 oed)
- Dyweddi neu ddarpar bartner sifil

²³ Lansiwyd y Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin ar 4 Chwefror 2025. Gall deiliaid fisa presennol y cynllun Wcráin wneud cais am ganiatâd i aros yn y DU am 18 mis ychwanegol, gyda'r un hawliau â'r cynlluniau presennol ar gyfer Wcráin. Bydd angen i unigolion wneud cais ar-lein pan fydd 28 diwrnod neu lai ar ôl nes i'w caniatâd cyfredol ddod i ben. Rhaid gwneud ceisiadau cyn i'r caniatâd fisa cyfredol ddod i ben.

²⁴ Diffinnir ceisiwr lloches fel rhywun sydd wedi cyflwyno cais am loches yn y DU sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd, neu sydd wedi'i farnu'n annerbyniol gan y Swyddfa Gartref. Bydd ceiswyr lloches a'u dibynyddion yn gymwys i dderbyn cyllid ôl-16, ar yr amod eu bod yn derbyn cymorth o dan unrhyw un o'r canlynol:

- Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Deddf Plant 1989
- Deddf Cymorth Gwladol 1498

²⁵ Bydd ceiswyr lloches y gwrthodwyd lloches iddynt ond sy'n gymwys ac wedi cael cymorth o dan Adran 4 o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 hefyd yn gymwys i dderbyn cyllid ôl-16. Mae Med yn ystyried bod pob ceisiwr lloches 16-18 oed yn gymwys i dderbyn cyllid, gan gynnwys unrhyw bobl ifanc 16-18 sy'n ceisio lloches yn ddigwmni, a'r rhai a gaiff eu rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol.

²⁶ Dylai pob cyfeiriad cymhwysra at briod gael eu darllen yn awr fel rhai sy'n cynnwys person sydd wedi cyfranogi naill ai mewn priodas ffurfiol a gydnabyddir gan y wladwriaeth neu seremoni partneriaeth sifil a gydnabyddir gan y wladwriaeth.

- e) y rhai sy'n ddibynyddion i ddysgwyr tramor lle mae gan y rhiant neu warcheidwad cyfreithiol sydd gyda hwy fisa dysgwr (mae'r rhiant neu warcheidwad cyfreithiol sydd gyda hwy wedi'u heithrio rhag cyllid fel a nodir ym mharagraff 35)
 - f) ceiswyr lloches
 - g) y rhai sydd wedi cael caniatâd dan [adran 67 Deddf Mewnfudo 2016](#) (diwygiad 'Dubs')
 - h) y rhai sydd wedi cael caniatâd Calais i aros
 - i) y rhai (gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches) a roddir yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol neu'r rhai sy'n cael cymorth adran 4
14. Yn ogystal ag ystyried dysgwyr yn y categorïau a restrir yn y 3 pharagraff uchod, bydd Medr yn ystyried amgylchiadau eithriadol eraill. Pan fo sefydliad yn credu y dylai dysgwr gael eu hystyried ar gyfer cyllid ôl-16 dan amgylchiadau eithriadol, rhaid iddo gysylltu â Medr i gael arweiniad cyn hawlio cyllid.

F. AEE, Y Swistir a'r Tiriogaethau Tramor

15. At ddibenion cymhwystra ar gyfer cyllid yn unig, rydym wedi diffinio AEE ar 31 Rhagfyr 2020 fel ardal sy'n cynnwys y Swistir, yn ogystal â holl aelodau'r UE, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, a Norwy a phob un o'u tiriogaethau tramor a restrir yn Atodiad B. Mae dysgwyr sy'n ddinasyddion rhai o Diriogaethau Tramor Prydain yn gymwys i gael cyllid. Bydd dinasyddion rhai Tiriogaethau Tramor Ewropeaidd hefyd yn gymwys i gael cyllid ond dim ond os gwnaethant symud i'r DU cyn 1 Ionawr 2021. Caiff tiriogaethau cymwys eu rhestru yn Atodiad.

G. Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus

16. Ni fyddai rhywun y mae 'heb hawl i gyllid cyhoeddus' wedi'i gynnwys yn y stamp ar eu pasbort yn torri eu hamodau mewnfudo pe baent yn cael mynediad at addysg a gyllidir gan y wladwriaeth yn y DU. Diffinnir 'cyllid cyhoeddus' yn y rheolau mewnfudo, ac nid yw'r budd-daliadau a'r gwasanaethau a restrir yn cynnwys addysg nac unrhyw gyllid addysg. Felly nid yw'r amod hwn mewn pasbort yn gwneud unrhyw wahaniaeth i gymhwystra dysgwr, y mae'n rhaid ei bennu dan y meini prawf cymhwystra arferol a ddisgrifir yn y paragraffau uchod.

H. Oedran

17. Mae dysgwr 16 oed yn ddysgwr sy'n 16 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn academiaidd neilltuol honno. Mae dysgwyr o'r fath fel arfer yn gymwys i gael cyllid ôl-16 Medr, yn amodol ar reoliadau eraill yn y canllawiau hyn.
18. Er mwyn parhau i fod yn gymwys i dderbyn cyllid ar gyfer dysgwyr unigol yn ystod rhaglen ddysgu, defnyddir diffiniad ehangach gan y cyrff cyllido. Bydd dysgwr a oedd yn 16 ar 31 Awst ar ddechrau'r flwyddyn gyllido pan ddechreuodd raglen ddysgu, fel y'i cofnodwyd ar ei gytundeb dysgu, yn parhau i gael ei gyllido nes i'w raglen ddysgu ddod i ben.

19. Mae rhaglen ddysgu'n cynnwys holl weithgareddau dysgwr sy'n arwain at set o ddeilliannau y cytunwyd arnynt gyda'r dysgwr fel rhan o'u proses gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (IAG). Gall rhaglen ddysgu gynnwys un neu fwy nag un nod dysgu a gall rychwantu mwy nag un flwyddyn gyllido.

I. Dysgwyr dan 16

20. Ceir un dyddiad pan all pobl ifanc adael yr ysgol yn gyfreithlon yng Nghymru, sef y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin ar gyfer y bobl hynny sydd wedi cwblhau blwyddyn 11. At ddibenion cyllid, mae 'dan 16' yn golygu dan 16 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd benodol honno.
21. Mae Medr yn cynghori sefydliadau i gynnwys yr ysgol a'r ALI mewn trafodaethau pan fo rhieni'n ceisio cofrestru person ifanc o oedran ysgol gorfodol ar raglen amser llawn, a bod y person ifanc hwnnw wedi bod mewn darpariaeth a gyllidwyd gan ALI (ysgol a gynhelir, darpariaeth amgen neu 'addysg heblaw yn yr ysgol') neu mewn academi neu ysgol rydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai sefydliad sy'n dymuno cofrestru dysgwr dan 16 oed ar 31 Awst geisio cyllid gan yr ALI, yr ysgol neu'r academi os yn briodol.
22. Gall Medr hefyd gyllido darpariaeth ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol o fewn y fethodoleg gyllido ôl-16 dan amgylchiadau eithriadol, fel a ganlyn:
- mae'r dysgwr yn cymryd rhan mewn Prentisiaeth Iau
 - rhaidd i'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau (yn rhai ar gyfer addysgu ac yn rhai eraill) fod yn gydnaws ag oedran, gallu a thueddfryd y dysgwr
 - mae rhiant/gwarcheidwad y dysgwr a'r ALI yn gwybod am y cofrestriad ac yn cytuno ag ef
23. Lle bo'r holl amgylchiadau uchod yn berthnasol, does dim angen i SABau gysylltu â Medr i gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer cyllid cyn sefydlu ymrwymiad.
24. Lle bo dysgwr dros oedran ysgol gorfodol yn mynychu cwrs astudio y tu allan i oriau ysgol, er enghraifft drwy ymrestru ar gwrs nos gyda choleg AB neu ddarparydd dysgu i oedolion, ni fydd y ddarpariaeth honno'n gymwys ar gyfer cyllid ôl-16.
